

# Adroddiad Blynyddol

## 2006-2007



Corff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chysiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach. O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon. Sefydlwyd y Cyngor ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993

### Confensiynau

Defnyddir y confensiwn canlynol wrth ddynodi blwyddyn ariannol y Cyngor a'r flwyddyn academiaidd:

Blwyddyn Ariannol (1 Ebrill hyd 31 Mawrth) 2006–07  
Blwyddyn Academiaidd (1 Awst hyd 31 Gorffennaf) 2006/07

### Copiâu ychwanegol

Gellir cael copiâu ychwanegol o'r adroddiad hwn gan:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru  
Cwrt Linden  
Clos Ilex  
Llanisien  
Caerdydd  
CF14 5DZ

Ffôn: 029 2076 1861

Ffacs: 029 2076 3163

E-bost: [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk)

Gellir llwytho copiâu PDF o'r adroddiad i lawr o wefan y Cyngor ar: [www.hefcw.ac.uk](http://www.hefcw.ac.uk).

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein, mewn print bras, Braille, ar CD ac ar CD clywedol. Os bydd arnoch chi neu rywun rydych yn ei adnabod ei hangen mewn fformat gwahanol, byddwch gystal â chysylltu â ni ar (029) 2068 2225 neu e-bostiwch [info@hefcw.ac.uk](mailto:info@hefcw.ac.uk).

### Hawlfraint CCAUC 2007

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) biau hawlfraint y cyhoeddiad hwn. Gall y deunydd gael ei gopïo neu ei atgynhyrchu ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell ac na ddefnyddir y deunydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, at elw masnachol. Rhaid cael caniatâd CCAUC ymlaen llaw os bwriedir defnyddio'r deunydd at elw masnachol.

Argraffwyd gan: HSW Print,  
Tonypandy, Rhondda, CF40 2XX  
Ffôn: (01443) 441100

# Cynnwys

Cenhadaeth a Nodau'r Cyngor	01
Adroddiad y Cadeirydd	02
Datganiad y Prif Weithredwr	04
Y Sector Addysg Uwch yng Nghymru 2006/07	05
Cyllido'r Sector Addysg Uwch	09
Ymgyrredd yn Ehangach	13
Y 'Fargen i Fyfyrrwyr'	16
Ymchwil Ragorol	18
Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas	19
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	22
Gwneud iddi Weithio	24
Busnes y Cyngor	27
Aelodau'r Cyngor	31
Perfformiad yn erbyn tasgau Llythyr Cylch Gwaith 2006-07	34
Cynnydd tuag at gyrraedd targedau <i>Ymgeisio'n Uwch</i>	38
Datganiadau Ariannol am y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2007	42

# Cenhadaeth CCAUC

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo addysg uwch o safon ryngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas ac economi Cymru a'r tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, defnyddiwn y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar hyd a lled Cymru.

Ym mhopeth a wnawn, rydym wedi ymrwymo i gynnal ac i gadw gwerthoedd craidd parhaus addysg uwch, sef:

Mae gennym saith nod craidd strategol:

## Ymgyrraedd yn Ehangach:

Sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi

## Y 'Fargen i Fyfyrrwr':

Sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf

## Ymchwil Ragorol:

Sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol

## Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas:

Sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol

## Hyfforddiant Cychwynol Athrawon:

Cynhyrchu athrawon newydd gymhwyso o ansawdd uchel

## Gwneud iddi Weithio: y sector AU yng Nghymru

Pwyslais cryf ar ail-gyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn AU yn ei chyfanrwydd

## Gwneud iddi Weithio: CCAUC

Bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy:

- feddu ar y gallu a'r isadeiledd angenrheidiol i weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru)
- bod yn ddewis deniadol fel cyflogwr

## Ysgolheictod a Dysgu

Cynnal diwylliant sy'n mynnu meddwl disgybledig a gonestrwydd deallusol, yn annog chwilfrydedd, yn herio syniadau sy'n bod ac yn creu rhai newydd.

## Cyfrifoldeb dinesig

Chwarae rhan o bwys wrth annog dinasyddiaeth dda ac wrth lunio cymdeithas ddemocrataidd, gynhwysol wedi ei seilio ar barch at hawliau'r unigolyn a'u cyfrifoldebau at gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

## Dysgu gydol oes

Galluogi unigolion i ddatblygu eu galluedd at eu potensial uchaf drwy gydol eu hoes.

## Cynaliadwyedd

Gweithio i sicrhau bod y sector yn datblygu o ran adeiladwaith mewn dull sydd orau i gefnogi gwireddu'r nodau strategol ac yn parhau yn gystadleuol yn rhyngwladol.

# Adroddiad y Cadeirydd

Roeddem yn cyllido 13 o sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn y flwyddyn academaidd 2006/07, gan gynnwys gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru. Unwaith eto, roeddem yn falch o allu rhoi cynnydd mewn termau real i bob SAU yng Nghymru ar y grantiau a gafwyd ganddynt y flwyddyn flaenorol.

Wrth inni symud i bedwaredd flwyddyn strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i addysg uwch yng Nghymru, *Ymgeisio'n Uwch*, roeddem yn gallu cymryd stoc o'r datblygiadau hyd yn hyn a pha mor realistig y gallai cyflawni targedau'r strategaeth fod.

Mae gan lawer o feysydd targed *Ymgeisio'n Uwch* - megis ehangu mynediad, incwm ymchwil a chyfrwng Cymraeg - gyllid wedi ei glymu gyda hwy i gynorthwyo sefydliadau i gyrraedd y nodau yn ogystal â sicrhau buddiannau iddynt eu hunain, y gymuned, yr economi a'r myfyrwyr. Ymhellach na hynny, roedd sefydliadau a ddangosai ymrwymiad i flaenoriaethau *Ymgeisio'n Uwch* o ail-gyflunio a chydweithredu ar eu hennill o ryw £25 miliwn gyda'i gilydd ar gyfer prosiectau a gychwynwyd yn 2006/07, wedi ei ryddhau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at y diben.

Roedd y prif ddatblygiadau a fanteisiodd ar y gronfa yn cynnwys Canolfan Cymru i'r Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol, a grëwyd gan brifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe (£5 miliwn); yr integreiddio ar wasanaethau a swyddogaethau gweinyddol Prifysgol Abertawe, Athrofa Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin (£7.5 miliwn); a'r gynghrair strategol rhwng Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru - Ysgol Gerddoriaeth Genedlaethol Cymru - a Phrifysgol Morgannwg (£12.75 miliwn).

Neilltuwyd bron i £7 miliwn drwy'r Gronfa Ddatblygu Strategol, a oedd yn cefnogi

newidiadau strategol nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer y Gronfa Ailgyflunio a Chydweithio. Drwy'r gronfa roeddem yn cefnogi cryfhau sefyllfa NEWI yng ngogledd ddwyrain Cymru, prosiect ar y cyd rhwng prifysgolion Casnewydd a Morgannwg i ehangu cyfleoedd AU yng nghymoedd de Cymru a phrosiect dan arweiniad UWIC i archwilio modelau i ddatblygu dysgu yn y gwaith mewn AU.

Roedd 2006/07 yn gychwyn ar gyfnod newydd ar gyllido i sefydliadau yng Nghymru, gyda SAUau wrthi'n paratoi i godi ffioedd myfyrwyr hyblyg o 2007/08. O gofio ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â chaniatáu ffioedd hyblyg tan 2007/08, dyrannwyd £33.5 miliwm gennym yn 'incwm atodol' i sefydliadau yn 2006/07, a oedd yn cyfateb i'r cyllido ychwanegol y byddai sefydliadau wedi ei gael pe baent wedi cael yr hawl i godi ffioedd hyblyg o 2006/07. Gan ddilyn canllawiau'r Cynulliad, roeddem yn sicrhau bod o leiaf 15% o'r cyllido ychwanegol ym mhob sefydliad yn cael ei ddefnyddio ar brosiectau i ehangu mynediad neu hyrwyddo addysg uwch.

Dosbarthwyd £5.5 miliwn gennym i faes blaenoriaeth *Ymgeisio'n Uwch* allweddol drwy'n taliadau ehangu mynediad. Dyrannwyd £2 filiwn ychwanegol gennym drwy ein menter *Ymgyrraedd yn Ehangach*, a adolygwyd yn ystod y flwyddyn gyda golwg ar ei gwneud hi hyd yn oed yn fwy effeithiol. Dangosai'r Dangosyddion Perfformiad diweddaraf fod Cymru yn parhau i berfformio'n well na'r DU yn ei chyfanrwydd mewn nifer o ddimensiynau ehangu mynediad.

Adolygasom ein polisi ymchwil yn 2006/07 mewn ymgynghoriad â'r sector AU yng Nghymru a chyhoeddwyd datganiad wedi ei ddiweddarau o'n hamcanion polisi, a fydd o gymorth inni lunio'r fframwaith cyllido ymchwil i'r dyfodol. Yn y cyfamser, cynhaliwyd y lefel sylweddol o gymorth - mwy na £4 miliwn - drwy'n Cronfa

Buddsoddi mewn Ymchwil, yn ychwanegol at y cyllido a roddwn i sefydliadau drwy'n grant rheolaidd i ymchwil o'r radd flaenaf. Targedwyd £5 miliwn pellach gennym i gefnogi sefydliadau wrth iddynt baratoi ar gyfer Ymarfer Asesu Ymchwil 2008.

Dosbarthwyd mwy na £5.1 miliwn gennym ar gyfer gweithgareddau trydedd genhadaeth, sydd yn cymhwyso a defnyddio gwybodaeth, ac a fydd yn eu tro o les i ddatblygiadau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru. Ymgynghorwyd ar sut roedd ein Cronfa Trydedd Genhadaeth wedi gweithredu hyd yn hyn, a chytunwyd i neilltuo peth cyllid ar gyfer datblygiadau cydweithredol ac i wobrwyo perfformwyr boddhaol.

Bu datblygiadau sylweddol mewn gwyddoniaeth yn ystod y flwyddyn a'n gwelodd yn gweithio'n agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y gwaith rhagbaratoi cyn lansio'r strategaeth wyddoniaeth i Gymru. Cefnogwyd Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru gennym, a Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru a enwir uchod, a chyfrannwyd at Ganolfan Generadu a Chyflenwi Ynni Adnewyddadwy Integredig Prifysgol Caerdydd. Dosbarthasom hefyd randaliad cyntaf y £46.5 miliwn a ddarparwyd i sefydliadau drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Gwyddoniaeth ar gyfer y DU gyfan (SRIF3).

Ymysg y meysydd eraill roeddem yn dal i weithio gyda phartneriaid ynddynt roedd hyfforddi cychwynnol athrawon, ieithoedd tramor modern, darpariaeth ran amser, graddau sylfaen, e-ddysgu, datblygu cynaliadwy ac addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Daliwyd ati i weithio'n agos gydag Addysg Uwch Cymru (AUC), a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), y cyrff sydd â'r naill yn

cynrychioli is-gangellorion a phrifathrawon, a'r llall gadeiryddion sefydliadau addysg uwch. Daliwyd ati hefyd gyda'n cylch o ymweliadau â SAUau Cymru, sydd wedi bod o gymorth inni ymgysylltu â hwy ar faterion unigol ac ar draws y sector.

Parhaodd aelodau'n Cyngor i roi cyfarwyddyd gwerthfawr i waith CCAUC. Croesawyd dau aelod newydd yn ystod y flwyddyn: yr Athro Mari Lloyd-Williams, sy'n dal cadair bersonol yng Nghyfadrann Feddygaeth Lerpwl, ble mae hi hefyd yn ymgynghorydd mewn meddygaeth liniarol a chyfarwyddwr un o'r rhaglenni addysg feddygol gymunedol mwyaf yn y DU; a Mr Ken Richards, sy'n arbenigo mewn cyllid ac economeg ac sy'n Gymrawd Ymchwil Er Anrhydedd yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd. Ailbenodwyd yr Athro Garel Rhys CBE am dymor pellach o dair blynedd a ffarweliwyd â Wendy Heppell, yr hoffwn estyn fy niolch iddi am ei chyfraniadau yn ystod ei chyfnod hithau o dair blynedd.

Dyma'r flwyddyn lawn olaf y byddaf i'n adrodd fel Cadeirydd CCAUC. Hoffwn achub ar y cyfle olaf hwn, ar ran y Cyngor i gyd, i ddiolch i staff CCAUC, nid yn unig am flwyddyn yr adroddiad hwn, ond am yr holl flynyddoedd rwyf wedi bod yn Gadeirydd, Cadeirydd gweithredol, a chyn hynny, yn aelod o'r Cyngor. Mae ymrwymiad ac arbenigedd y staff wedi bod yn hanfodol yn y gwaith o'n cynorthwyo i daro cytbwysedd rhwng gofynion a chyfarwyddyd Llywodraeth y Cynulliad ac anghenion a dymuniadau'r sector addysg uwch yng Nghymru, ac rwy'n ddiolchgar i bawb ohonynt. Mae hi hefyd wedi bod yn bleser ac yn anrhydedd imi weithio ochr yn ochr ag aelodau'r Cyngor sydd wedi gwasanaethu yn ystod fy nghyfnod i yn CCAUC.



# Datganiad y Prif Weithredwr

Mae Adroddiad y Cadeirydd eisoes wedi cyfeirio at dargedau'r sector, a amlinellir yn *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos ein bod ar y ffordd i gyflawni'r rhan fwyaf o'r rhain erbyn 2010/11. Fodd bynnag, bydd rhaid i'r sector a ninnau adnewyddu'n hymdrechion er mwyn cyflawni nifer o rai eraill.

Mae'r sector yng Nghymru wedi perfformio'n dda wrth recriwtio o'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, gyda 11.5% o'r israddedigion newydd o Gymru yn cyrraedd SAU yng Nghymru yn 2005/06 yn dod o'r ardaloedd hynny. Wedi ei danategu gan ein menter *Ymgynraedd yn Ehangach*, mae peth gwaith yn dal i'w wneud i sicrhau cynnydd yn y 9.9% o israddedigion newydd o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf sy'n byw yng Nghymru ar gyrsiau AU mewn sefydliadau ar hyd a lled y DU.

Yn ogystal â chael profiad dysgu boddhaol dros ben ym mhrifysgolion a cholegau Cymru, fel y dangosir gan ganlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol, mae myfyrwyr o Gymru hefyd fwyfwy yn dewis astudio yng Nghymru, gyda 63.1% o myfyrwyr amser-llawn wrthi'n gwneud hynny, yn erbyn y targed ar gyfer 2010/11 o 70%.

Mae Cymru wedi aros ar y blaen i weddill y DU (ac eithrio tynfa unigryw Llundain a de ddwyrain Lloegr) wrth gynyddu'r recriwtio ar fyfyrwyr o dramor, gan godi o 11.8% yng Nghymru yn 2005/06 o gymharu â 3.3 % yn y DU gyfan.

Mae'r nod o gynyddu'r gyfran, o 5.3% i 7%, o fyfyrwyr AU sy'n byw yng Nghymru mewn SAUau a SABau yng Nghymru sy'n gwneud rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn fwy o her. Dyna pam rydym wrthi'n gweithio gyda'r sector, Addysg Uwch Cymru (AUC) a'r ymgyrch *Mantais* i gynyddu momentwm ar yr ochrau galw a chyflenwad fel ei gilydd drwy hyfforddi mwy o ddarlithwyr i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan beri bod mwy o fodiwlau ar gael i'r myfyrwyr ac annog

ymgeiswyr i wneud o leiaf ran o'u cwrs AU yn Gymraeg.

Targed anodd arall yw'r un ar gyfer lleihau costau gorbenion y sector mewn perthynas â'r SAUau hynny yng ngweddill y DU (ac eithrio Llundain a'r de ddwyrain), er bod rhaid inni gydnabod yma fod y costau yng Nghymru yn aros yn is na'r cyfartaledd yn y DU.

Mae'r canran o gyllido gan y Cynghorau Ymchwil sy'n cael ei ddenu gan SAUau yng Nghymru wedi aros tua 3.3%, yn hytrach na chodi at y targed o 4.5%, ond rydym yn parhau yn optimistaidd y bydd nifer o fuddsoddiadau sydd a wnelo ag ymchwil drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu yn arwain yn fuan at fwy o gynnydd. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r sefydliadau ar y targed o gynyddu'r incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i'r Cynghorau Ymchwil o 60% ar ffigur 2000/01 erbyn 2007/08.

Yn olaf o ran targedau, nid yn unig y mae data diweddaraf HEBCIS yn dangos bod Cymru, rhwng 2004 a 2006, wedi cynhyrchu 13.5% o holl fusnesau sy'n deillio o addysg uwch a holl weithgaredd cwmnïau wedi eu cychwyn gan staff yn y DU, ond rydym yn gwybod hefyd fod y sector AU eisoes wedi cyflawni targed 2010/11 o ddyblu'r nifer o gwmnïau deillio proffidiol o 21 i 42.

Yn ystod blwyddyn yr adroddiad, roeddem yn falch hefyd o weld bod sefyllfa ariannol gyffredinol y sector wedi gwella. Fodd bynnag, byddwn yn dal i fonitro'r sefyllfa'n agos i helpu i liniaru unrhyw effaith bosibl ar ddiffygion gweithredu ar sefydliadau unigol.

Yn olaf, rydym yn cynnwys yn yr adroddiad grynoded o weithgareddau'r cynllun gweithredu y gofynnwyd inni eu cyflawni gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rydym wedi cyflawni'r rhan fwyaf o'r rhain, ac mae'r gweddill mewn llaw. Ni fyddai hyn wedi ei gyflawni heb ymroddiad a phroffesiynoldeb y staff yng ngweithgor bychan CCAUC.

# Y sector AU yng Nghymru yn 2006/07

Cyllidodd CCAUC 13 o sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn 2006/07, gan gynnwys gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru.

Mae maint y sefydliadau AU yn y sector yn amrywio o 26,789 o gofrestriadau ym Mhrifysgol Caerdydd i 2,057 yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin.

Gellir cymryd rhai cyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach (CABau). Rydym yn cyllido'n uniongyrchol ran o'r ddarpariaeth addysg uwch mewn CABau. Fodd bynnag, darperir y rhan fwyaf o gyrsiau mewn CABau drwy drefniadau ffranseis gyda sefydliadau addysg uwch.

Dangosodd ystadegau a gasglwyd yn 2006/07 fod 119,993 o gofrestriadau ar gyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau a gyllidir gan CCAUC. O blith y rhain roedd 103,342 yn gymwys i gael eu cyllido gan CCAUC.

Roedd y nifer uchaf o fyfyrwyr amser-llawn gan Brifysgol Caerdydd.

Prifysgol Morgannwg oedd yn darparu'r mwyaf o gyrsiau israddedig rhan-amser.

Prifysgol Cymru, Casnewydd, oedd yn darparu'r mwyaf o gyrsiau rhan-amser dan ffranseis i SABau.

## Cofrestriadau yn ôl Statws Ffi, Lefel a Modd 2006/07

		Cofrestriadau Amser-llawn	Cofrestriadau Rhyngosod	Cofrestriadau Rhan-amser	Cyfanswm Cofrestriadau
Cartref a CE cyllidadwy	Israddedigion	50,043	646	34,610	85,298
	Israddedigion nid gradd	3,219	30	0	3,24
	Ôl-radd a addysgir	4,039	0	8,180	12,219
	Ymchwil ôl-radd	1,665	0	911	2,576
	<b>Cyfanswm</b>	<b>58,966</b>	<b>676</b>	<b>43,701</b>	<b>103,342</b>
Cartref a CE anghyllidadwy	Israddedigion	5,074	0	1,225	6,299
	Israddedigion nid gradd	515	0	0	515
	Ôl-radd a addysgir	194	0	140	334
	Ymchwil ôl-radd	77	0	136	213
	<b>Cyfanswm</b>	<b>5,860</b>	<b>0</b>	<b>1,501</b>	<b>7,361</b>
Tramor (yn cynnwys Ynysoedd y Sanel ac Ynys Manaw)	Israddedigion	3,418	62	576	4,056
	Israddedigion nid gradd	242	0	0	242
	Ôl-radd a addysgir	3,029	0	979	4,008
	Ymchwil ôl-radd	817	0	168	985
	<b>Cyfanswm</b>	<b>7,505</b>	<b>62</b>	<b>1,723</b>	<b>9,290</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>72,331</b>	<b>738</b>	<b>46,925</b>	<b>119,993</b>	

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2006/07

Nodiadau: (1) Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1

(2) Cynhwysir cofrestriadau cyllidadwy, anghyllidadwy, tramor ac ynysoedd

(3) Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu



## Cofrestrïadau yn ôl Sefydliad, Lefel a Modd 2006/07

	Israddedigion gradd		Israddedigion nid gradd		Israddedigion (IR)		Ôl-radd a addysgir			Ymchwil Ôl-radd		Cyfanswm
	Amser-llawn	Rhyngosod	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser (heb gynnwys IR (Ffranseis))	Rhan-Amser llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	Amser-llawn	Rhyngosod	Rhan-amser	
Prifysgol Morgannwg	8,807	98	1,552	0	5,992	1,676	1,055	0	1,860	199	0	21,456
Prifysgol Aberystwyth	5,662	82	105	30	2,025	20	549	0	706	242	0	9,482
Prifysgol Bangor	5,444	38	105	0	1,453	40	803	0	617	367	0	8,990
Prifysgol Caerdydd	15,229	328	149	0	5,518	0	1,933	0	2,193	1,067	0	26,789
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	939	0	62	0	1,645	13	207	0	547	97	0	3,618
Prifysgol Abertawe	8,170	93	72	0	2,252	0	728	0	590	417	0	12,468
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	5,630	63	559	0	830	82	1,065	0	409	98	0	8,834
Prifysgol Cymru, Casnewydd	2,959	0	171	0	1,978	2,134	260	0	1,028	27	0	8,573
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru	2,134	0	248	0	2,900	1,110	137	0	292	33	0	6,883
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	2,125	6	661	0	1,313	0	399	0	567	13	0	5,125
Coleg y Drindod Caerfyrddin	1,133	0	0	0	728	0	127	0	69	0	0	2,057
Coleg Pen-y-bont	0	0	26	0	12	0	0	0	0	0	0	38
Coleg Sir Gâr	236	0	0	0	74	0	0	0	0	0	0	310
Coleg Llandrillo	67	0	140	0	731	0	0	0	0	0	0	938
Coleg Menai	0	0	0	0	23	0	0	0	0	0	0	23
Coleg Castell-nedd Port Talbot	0	0	24	0	39	0	0	0	0	0	0	63
Coleg Morgannwg	0	0	87	0	0	0	0	0	0	0	0	87
Coleg Abertawe	0	0	16	0	1	0	0	0	0	0	0	17
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	0	0	0	0	3,822	0	0	0	421	0	0	4,243
<b>Cyfanswm</b>	<b>58,535</b>	<b>708</b>	<b>3,976</b>	<b>30</b>	<b>31,336</b>	<b>5,075</b>	<b>7,262</b>	<b>0</b>	<b>9,299</b>	<b>2,559</b>	<b>0</b>	<b>119,993</b>

Ffynhonnell: Arolwg Monitro Diwedd Blynyddyn (EYM) o Gofrestrïadau Addysg Uwch 2006/07

**Nodiadau:**

- (1) Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1
- (2) Cynhwysir cofrestrïadau cyllidadiwy, anghyllidadiwy, tramor ac ynsoeddi
- (3) Mae Israddedigion Rhan-amser yn cynnwys cofrestrïadau gradd ac nid gradd
- (4) Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

**Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) 06/07  
Cofrestriadau yn ôl Lefel a Modd**

Israddedigion	Amser- llawn/Rhyngosod	59,242
Israddedigion nid gradd	Amser- llawn/Rhyngosod	4,006
Israddedigion	Rhan-amser	36,411
Ôl-radd a addysgir	Amser- llawn/Rhyngosod	7,262
	Rhan-amser	9,299
Ymchwil ôl-radd	Amser- llawn/Rhyngosod	2,559
	Rhan-amser	1,215

**Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn  
(EYM) 06/07 Cofrestriadau yn ôl Lefel**

Israddedigion	99,658
Ôl-radd a addysgir	16,561
Ymchwil ôl-radd	3,774

**Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn  
(EYM) 06/07 - Cofrestriadau yn ôl Modd**


Amser-llawn	72,331
Rhyngosod	738
RA arall	41,850
RA dan ffranseis IR	5,075

**Ffynhonnell:** Arolwg Monitro Diwedd Blwyddyn (EYM) o Gofrestriadau Addysg Uwch 2006/07


- Nodiadau:**
- (1) Cyfrifir myfyrwyr rhyngosod fel 1
  - (2) Cynhwysir cofrestriadau cyllidadwy, anghyllidadwy, tramor ac ynysodd
  - (3) Mae ffranseis yn cynnwys israddedigion rhan-amser yn unig
  - (4) Mae Israddedigion Rhan-amser yn cynnwys cofrestriadau gradd ac nid gradd
  - (5) Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

RA = rhan-amser  
IR = israddedig


**Cofrestrïadau yn ôl Lefel a Modd**



**Cofrestrïadau yn ôl Lefel**



**Cofrestrïadau yn ôl Modd**



# Cyllido'r sector AU yng Nghymru yn y Flwyddyn Academaidd 2006/07

## Ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y FA 2006-07

Rydym yn cael ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fesul blwyddyn ariannol (BA) (1 Ebrill at 31 Mawrth), ond dyrannwn y rhan fwyaf o'n cyllid fesul blwyddyn academaidd (BAc) (1 Awst at 31 Gorffennaf).

Yn y FA 2006-07, roedd ein grant gan y Cynulliad yn gyfanswm o £411.8 miliwn. Roedd hyn yn cynnwys:

Cronfeydd rhaglenni ailadroddus o **£364.7 miliwn**;  
Cyllido uwchlaw'r waelodlin o **£14 miliwn** i gefnogi amcanion *Ymgeisio'n Uwch*; cyfalaf Ymgeisio'n Uwch o **£4 miliwn**  
Cronfeydd cyfalaf o **£18.4 miliwn**;  
Costau cynnal o **£3 miliwn**; a  
chronfeydd rhaglen y Brifysgol Agored o **£7.7 miliwn**.

## Cyllido fformiwla i'r sector AU yng Nghymru

Roedd setliad y flwyddyn ariannol hon yn caniatáu inni ddyrannu **£343.4 miliwn** mewn grant fformiwla'r sector ar gyfer addysgu, trydedd genhadaeth, ymchwil a hyfforddiant ymchwil ôl-raddedigion.

Gwelodd pob SAU gynnydd mewn termau real ar eu grantiau am 2006/07. Yn nhermau arian parod, roedd y cynnydd cyfartalog i'r SAUau ar eu grantiau 2005/06 yn 2.84%.

## Cyllido premiwm

Gwnaethom daliadau 'premiwm' neu ychwanegol ar gyfer ehangu mynediad, myfyrwyr anabl a chyfrwng Cymraeg. Dyrannwyd £215 ychwanegol i bob myfyriwr cymwys gennym hefyd ar gyfer ehangu mynediad a daliwyd ati i dalu'r premiwm

ychwanegol, a oedd hefyd yn £215, i bob myfyriwr cymwys o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dosbarthwyd £5.5 miliwn gennym drwy'r taliadau premiwm ehangu mynediad wedi'u cyfuno.

Cafodd SAUau £215 ychwanegol i bob myfyriwr anabl cymwys, gan fynd â'r cyllido yn y maes hwn dros £0.6 miliwn. Dosbarthwyd rhyw £1.3 miliwn drwy ddyraniadau premiwm cyfrwng Cymraeg.

## Ymchwil

Cynyddwyd yr adnodd ar gyfer yr ymchwil a gafodd radd 5\*, 5 a 4 o 2.46%, ac ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-raddedig o 2.1%. Cynhaliwyd y lefel sylweddol o gefnogaeth drwy ein Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil £4.1 miliwn, a ddefnyddir i ddatblygu ymchwil sy'n ymddangos, gwella meysydd o gryfder ymchwil sy'n bod eisoes neu i ailffurfio eu portffolio ymchwil.

## Dyraniadau cyllido fformiwla yn y FAC 2006/07

**£268.1 miliwn** ar gyfer addysgu  
**£65.8 miliwn** ar gyfer ymchwil  
**£5.2 miliwn** ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-raddedigion  
**£5.1 miliwn** ar gyfer trydedd genhadaeth  
**£7.7 miliwn** i'r Brifysgol Agored yng Nghymru

## Cyllido *Ymgeisio'n Uwch* uwchlaw'r waelodlin (wedi'i drosi yn gyllido blwyddyn academaidd)

Sicraodd cyllido uwchlaw'r waelodlin o dan strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru Ymgeisio'n Uwch £12.5 miliwn yn cefnogi ail-gyflunio a chydweithredu yn y sector, gyda £2.1 miliwn yn cael ei ddyrannu i ehangu mynediad a £2 filiwn bellach yn cael ei glustnodi ar gyfer cyllid cyfalaf.

### Trydedd genhadaeth

Cynyddodd ein Cronfa Trydedd Genhadaeth o £1 miliwn at £5.1 miliwn. Roedd y gwariant ar fentrau cyflogaeth graddedigion yn gyfanswm o £2.54 miliwn.

### Cyllid heb ei seilio ar fformiwla

Roedd cyfanswm y cyllid heb ei seilio ar fformiwla yn £8.1 miliwn ar gyfer grantiau sydd a wnelo ag addysgu, gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer myfyrwyr, hyfforddiant cychwynnol athrawon a dysgu ac addysgu. Cyfranasom hefyd £1.6 miliwn at Gynllun Pensiwn yr Athrawon.

### Mentrau ar y cyd

Cyfranasom at nifer o fentrau ar y cyd, yn gyfanswm o £8.9 miliwn, gyda'n partneriaid o gyrrff cyllido yn y DU, megis ar gyfer y

Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (CSBG, £2.285 miliwn) gan ddarparu'r rhwydwaith academiaidd ar y cyd (JANET).


### Cyllid cyfalaf

Mae ein grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys cyllid cyfalaf wedi ei glustnodi i gefnogi datblygu isadeiledd ar gyfer ymchwil a dysgu, addysgu a TG. Dyrannwyd £18.4 miliwn yn y maes hwn yn 2006/07.


### Cyfanswm cyllido'r sector AU yn ôl fformiwla a heb fod yn ôl fformiwla yn y FA 2006/07

Roedd cyfanswm ein dyraniadau ailadroddus - yn ôl fformiwla a heb fod yn ôl fformiwla - a grant cyfalaf ar gyfer 2006/07 yn gyfanswm o £407.99 miliwn.

**Dyraniadau Cyllid Fformiwla, Cyfansymiau 2006/07**



**Dyraniadau Eraill 2006/07**



## Cyllid CCAUC ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07

GRANT RHEOLAIDD	Gwariant hyd fis Gorffennaf 2007 (£)
<b>Grant ar gyfer Addysgu</b>	
Prif grant fformiwla	256,212,719
Y pen	4,395,017
Premiwm ehangu mynediad	5,513,870
Premiwm cyfrwng Cymraeg	1,331,726
Premiwm anabledau	602,800
	<b>CYFANSWM</b>
	268,056,132
<b>Y Brifysgol Agored</b>	7,671,000
<b>Grantiau'n Gysylltiedig ag Addysgu</b>	
Ehangu mynediad	1,742,852
Cronfa Dysgu ac Addysgu	2,176,355
Cyfrwng Cymraeg (Uned a Chynlluniau Arbennig)	384,110
Cynlluniau Arbennig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	70,000
Strategaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	1,131,380
Ad-dalu ffioedd i fyfyrwyr ERASMUS	361,200
Hepgor ffioedd rhan-amser	1,000,000
Ysgol Glinigol GC	1,013,100
Partneriaethau HCA	254,010
	<b>CYFANSWM</b>
	8,133,007
Cynllun Pensiwn Athrawon	1,623,700
<b>Grantiau ar gyfer Ymchwil</b>	
Grant seiliedig ar Ymarfer Asesu Ymchwil (QR)	60,889,715
Cronfa Buddsoddi mewn Ymchwil (RIF)	4,140,959
Cynlluniau – gan gynnwys Bwrdd Ymchwil, y Cynllun Gwobrau i Fyfyrwyr Ymchwil Tramor a Bwrdd a Gwasg Prifysgol Cymru	766,760
	<b>CYFANSWM</b>
	65,797,434
<b>Grant ar gyfer hyfforddiant ymchwil ôl-radd</b>	5,226,366
<b>Grantiau Trydedd Genhadaeth</b>	
Cronfa Trydedd Genhadaeth	5,128,070
Cynlluniau Cyflogaeth Graddedigion	2,535,000
	7,663,070
<b>Grantiau y tu allan i'r Brif Ffrwd</b>	
yn cynnwys – y Rhwydwaith Cymorth Dysgu ac Addysgu, y Cyd-bwyllgor Systemau Gwybodaeth, rhaglenni Sicrhau Ansawdd AU, cyllid ar gyfer anabledau	8,890,176
<b>Cyllid Strategaeth AU (dyraniad ar sail BAr wedi'i throsi'n BAc)</b>	
Ailgyflunio a Chydweithio (mae'n cynnwys cyllid a glustnodwyd gan y Cynulliad a chyllid o grant cychwynnol y Cyngor)	12,471,332
Ymgynraedd yn Ehangach	2,060,000
Cyfalaf Ymgeisio'n Uwch	2,000,000
	16,531,332
<b>CYFANSWM RHEOLAIDD</b>	389,592,217
<b>CYFALAF (dyraniad ar sail BAr wedi'i throsi'n BAc)</b>	18,396,000
yn cynnwys is-strwythur ar gyfer ymchwil ac addysgu a dysgu	
	<b>CYFANSWM</b>
	407,988,217



## Dyraniadau Cyllid Fformiwla 2006/07

Sefydliad	Cyfanswm Cyllid Fformiwla ar gyfer Addysgu	Ymchwil (QR) a (RIF)	Y Gronfa Trydedd Genhadaeth	Ymchwil Ôl-radd	Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Prifysgol Morgannwg	41,243,826	1,886,728	338,687	335,799	43,805,040
Prifysgol Aberystwyth	23,915,971	6,015,734	404,609	387,273	30,723,587
Prifysgol Bangor	22,280,992	8,181,487	668,296	549,670	31,680,445
Prifysgol Caerdydd	64,293,207	37,126,452	1,732,122	2,860,178	106,011,959
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	4,695,835	1,282,456	140,922	89,041	6,208,254
Prifysgol Abertawe	26,929,538	8,497,250	668,296	903,774	36,998,858
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	24,490,326	1,177,096	338,687	64,524	26,070,633
Prifysgol Cymru, Casnewydd	17,983,635	420,432	272,765	30,461	18,707,293
Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru	14,358,838	120,202	140,922	0	14,619,962
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	14,128,696	81,218	140,922	5,646	14,356,482
Coleg y Drindod Caerfyrddin	5,637,161	0	140,922	0	5,778,083
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	5,201,552		140,922		5,342,474
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	0	241,618		0	241,618
Coleg Sir Gâr	1,072,749	0		0	1,072,749
Coleg Llandrillo	1,189,260	0		0	1,189,260
Coleg Abertawe	47,799	0		0	47,799
Coleg Castell-nedd Port Talbot	115,438	0		0	115,438
Coleg Pen-y-bont	68,069	0		0	68,069
Coleg Morgannwg	340,715	0		0	340,715
Coleg Menai	62,523	0		0	62,523
<b>CYFANSWM</b>	<b>268,056,133</b>	<b>65,030,672</b>	<b>5,128,072</b>	<b>5,226,363</b>	<b>343,441,241</b>

Mae'n bosibl nad yw'r ffigurau'n adio i'r cyfansymiau oherwydd talgrynnu

# Ymgynraedd yn Ehangach

## Partneriaethau Ymgynraedd yn Ehangach

Mae arnom eisiau cynyddu'r cyfleoedd i gael mynediad at addysg uwch i bawb sydd â'r potensial i fod ar eu hennill drwy hynny.

Rydym yn annog sefydliadau addysg uwch i ystyried ceisiadau gan bob cymuned. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gall fod yna rai ymgeiswyr prifysgol posibl y gallai fod arnynt angen cefnogaeth ychwanegol, datblygu sgiliau neu godi hyder cyn y gallent ystyried cychwyn ar gwrs addysg uwch.

Mae'r pedair partneriaeth *Ymgynraedd yn Ehangach* yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn drwy ddarparu gweithgareddau i godi dyheadau addysgol a sgiliau academaidd gyda grwpiau, o bob oedran, a dangynrychiolir yn gyffredinol mewn addysg uwch – er enghraifft, yn rhai o'r cymunedau sydd fwyaf dan anfantais yng Nghymru. Maent yn gweithio hefyd gyda phobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl sydd am astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyrannwyd £2 filiwn i'r fenter *Ymgynraedd yn Ehangach* yn 2006/07.

Yn gynnar yn 2007 bu inni gyhoeddi adroddiad, ac ymgynghori ar y canfyddiadau ynddo, ar y Gwerthuso Cenedlaethol ar *Weithgareddau Ehangu Mynediad a'r Fenter Ymgynraedd yn Ehangach*.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad:

- fod sefydliadau addysg uwch yn amrywio yn y ffordd maent yn gweithredu eu strategaethau i ehangu mynediad i grwpiau a dangynrychiolir;
- dylai SAUau ddal ati i ddatblygu ffyrdd i asesu effaith eu gweithgareddau;
- dylai SAUau barhau i wneud cynnydd at gyrraedd y targedau *Ymgeisio'n Uwch* er bod

yr amser arwain rhwng cychwyn y rhaglen *Ymgynraedd yn Ehangach* a mynychu'r brifysgol yn golygu y gall hi fod yn anodd asesu effaith y prosiectau;

- bod SAUau yn cynyddu'r ffocws ar gefnogi a chadw myfyrwyr ar gyfer y rhai sydd eisoes yn y system;
- byddai partneriaethau *Ymgynraedd yn Ehangach* ar eu hennill o gyllido tymor hwy;
- dylid annog partneriaethau *Ymgynraedd yn Ehangach* i ddatblygu eu gwaith gydag oedolion yn ogystal â phobl ifanc a phlant; a
- dylid rhoi ystyriaeth neilltuol i anghenion pobl sy'n gadael gofal mewn addysg uwch.

Roedd yr ymatebion yn rhoi gwybodaeth i'n cyngor terfynol ar ddatblygu polisi ehangu mynediad yn y dyfodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Strategaethau i ehangu mynediad

Yn y sefydliadau dyrannwyd gennym £215 ychwanegol i bob myfyriwr o ardal o gyfoeth isel a £215 i bob myfyriwr o ardal Cymunedau yn Gyntaf. Ar ben hyn, dyrannwyd £1.3m i fyfyrwyr gyda chymwysterau anhraddodiadol wrth iddynt gyrraedd. Yn gyfan gwbl, rhoesom fwy na £5.5 miliwn mewn cyllido premiwm ehangu mynediad i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Yn ychwanegol at y cyllid premiwm hwn, dyfarnwyd £1.74 miliwn i sefydliadau yn 2006/07 iddynt allu gweithredu eu strategaethau ehangu mynediad, a oedd yn cynnwys cryfhau'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau yn y strategaethau hyn a gwaith y Partneriaethau *Ymgynraedd yn Ehangach*.

Cawsom y strategaethau tair blynedd newydd yn yr hydref. Gofynnwyd i sefydliadau roi sylw neilltuol i weithgareddau codi dyheadau addysgol, datblygu sgiliau academaidd a gyrfaol

a hyder, polisïau i'r rhai sy'n gadael gofal, llwybrau dilyniant at AU a thrwyddi a pholisïau mynediad a chadw.

Cytunwyd gennym hefyd y dylai ehangu mynediad at addysg uwch, gan gynnwys cefnogaeth i fyfyrwyr rhan-amser, ddod yn un o'n meysydd blaenoriaeth pan ddown at ystyried dyrannu ein cyllido craidd yn fwy strategol.

### Cefnogi myfyrwyr anabl

Rydym yn cydnabod y gall fod costau ychwanegol ar SAUau wrth osod strwythurau i gefnogi myfyrwyr anabl. Am y tro cyntaf, cyrhaeddodd ein cronfa premiwm anabledd fwy na £600k. Dywedodd sefydliadau wrthym sut eu bod yn bwriadu defnyddio'r cyllido ychwanegol hwn drwy eu strategaethau ehangu mynediad.

Y llynedd, bu inni gyflogi'r cydlynnydd cenedlaethol penodol cyntaf i gynorthwyo prifysgolion a cholegau i roi eu polisïau hawliau cyfartal ar waith. Mae'r Cydlynnydd Anabledd ac Amrywiaeth yn gweithio gyda sefydliadau i roi cefnogaeth ymarferol iddynt a chyfarwyddyd ar sut mae gwneud cyfleoedd cyfartal yn realiti i fyfyrwyr.

### Cefnogi'r sawl sy'n gadael gofal a phlant y gofelir amdanynt

Cynhaliwyd cynhadledd gennym ym mis Tachwedd i lansio Marc Ansawdd y Rhai sy'n Gadael Gofal newydd Ymddiriedolaeth Frank Buttle mewn addysg uwch yng Nghymru. Dyfeisiwyd y Marc Ansawdd i gydnabod cyflawniadau sefydliadau wrth ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc â chefnidir gofal ganddynt.

### Cefnogaeth ariannol i fyfyrwyr

Bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn

codi ffioedd hyblyg ar fyfyrwyr flwyddyn ar ôl i'r rhai yn Lloegr eu cyflwyno yn 2006/07. Yn hytrach na hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun a fydd o fudd i fyfyrwyr heb beri anfantais ariannol i'r sefydliadau. Drwy'r *Llif Incwm Atodol* roeddem yn dyrannu cyllid ychwanegol i SAUau Cymru ar sail beth fyddai eu hincwm ffioedd ychwanegol wedi bod petaent wedi cael codi ffioedd hyblyg yn 2006/07.

Gofynnwyd i'r sefydliadau gynnig cynlluniau yn amlinellu beth y byddent wedi ei wneud gyda'r 'incwm atodol' hwn a thalwyd y cyllid ar yr amod eu bod yn rhoi 15% ohono o'r neilltu ar gyfer ehangu mynediad, cynyddu cyfranogiad a hyrwyddo AU. Galluogai hyn i'r SAUau gynnig ystod o fwsariaethau ac ysgoloriaethau newydd i grwpiau a dangynrychiolir neu i annog recriwtio i bynciau megis gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg ac ieithoedd tramor modern, ac i gyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Gosodwyd £1 filiwn o'r neilltu i'n cynllun hepgor ffioedd, sy'n cefnogi myfyrwyr rhan-amser sy'n cael budd-daliadau.

Parhaom i weinyddu Cronfa Cyllid Wrth Gefn Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cynorthwyo myfyrwyr sy'n wynebu anawsterau wrth gwrdd â'u costau byw. O 2007/08 Llywodraeth y Cynulliad fydd yn gyfrifol am weinyddu'r gronfa hon.

### Datblygiadau ar raddfa fawr

Cyhoeddwyd buddsoddiad o bwys gennym i gefnogi adfywio ac addysg yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Bydd y prosiect £1.5 miliwn hwn yn gweld Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, yn cynnig cyfleoedd dysgu yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Bydd tiwtoriaid ar gael drwy gynlluniau fel 'siopau gwyddoniaeth', y ceir mynediad atynt drwy

atynt drwy leoliadau yn y gymuned i helpu grwpiau lleol i ddatrys problemau drwy ddefnyddio dulliau gwyddonol ymarferol.

### Ein pwyllgorau

Ad-drefnwyd y Grŵp Llywio Ymgynraedd yn Ehangach Cenedlaethol i fod yn is-bwyllgor i'n Cyngor, a'i ailenwi'n Bwyllgor Ehangu Mynediad.

### Dangosyddion perfformiad

Dangosai'r Dangosyddion Perfformiad mewn AU ar gyfer 2005/06 fod y sector yng Nghymru yn dal i berfformio'n well na'r DU yn ei chyfanrwydd o ran:

- Recriwtio myfyrwyr newydd israddedig ifanc, amser llawn o ysgolion y wladwriaeth (92.2%) neu gymdogaethau isel eu cyfranogiad (16.9%), neu fyfyrwyr newydd israddedig aeddfed amser llawn (23.7%); a
- Recriwtio cyfran gynyddol o israddedigion amser llawn sy'n cael Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA). Cafodd 5.2% o'r myfyrwyr hyn yng Nghymru LMA yn 2005/06, o'i gymharu â 4.6% y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r 4.0% ar gyfer y DU gyfan.

# Y 'Fargen i Fyfyrrwyr'

## Gwella dysgu ac addysgu

Mae'n cronfa ar gyfer dysgu ac addysgu yn annog SAUau i hyrwyddo addysgu rhagorol ac adolygu a gwella'n barhaus brofiad dysgu'r myfyriwr.

Drwy'r gronfa, rydym wedi:

- dyrannu £845,345 i gefnogi strategaethau SAUau ar gyfer dysgu ac addysgu; a
- thalu, am y drydedd flwyddyn a'r olaf, danysgrifiadau'r sefydliadau i'r Academi Addysg Uwch.

Yn dilyn asesiad effaith cyfartaledd, gwahoddasom strategaethau tair blynedd newydd i gael eu cyflwyno erbyn hydref 2007.

Mae'r Academi Addysg Uwch, y corff ar draws y DU sy'n cynorthwyo sefydliadau a staff i gynnig y profiad dysgu gorau posibl i'w myfyrrwyr, yn gweithio'n agos gyda ni ar draws ystod o weithgareddau gan gynnwys e-ddysgu, cynaliadwyedd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dysgu mewn gwaith a chyflogadwyedd.

## Gwella ansawdd

Rydym yn cynorthwyo sefydliadau addysg uwch Cymru i gynnal dysgu rhagorol fel bod profiad y myfyriwr o ansawdd uchel.

Yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (ASA) yw'r corff sy'n adolygu ansawdd a safonau mewn SAUau. Cynhaliodd yr ASA dri adolygiad sefydliadol (AS) yn 2006-07, pedwaredd flwyddyn ei chylch chwe blynedd presennol o adolygiadau. At hyn, roedd Adolygiad yr ASA o ddarpariaeth yn Tsieina yn cynnwys adroddiad ar ddarpariaeth gydwethredol un o'r SAUau yng Nghymru.

I gwrdd â'n cyfrifoldebau statudol yn yr asesu ar ddarpariaeth a gyllidir, rydym yn gweithio gyda'r ASA a'r sector i ddatblygu dull i adolygu darpariaeth AU a gyllidir yn uniongyrchol mewn colegau addysg bellach, i ddiwydd yn 2007/08.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau i ddiffiniadau adolygu sefydliadol yng Nghymru. O ganlyniad rhoesom 'ddyfarniad hyder' newydd yn ei le i alinio â rhannau eraill o'r DU. Bydd rhaid i newidiadau eraill aros am adolygiad llawn o broses yr adolygiad sefydliadol, i'w wneud yn 2007/08.

## E-ddysgu

Yn ystod y flwyddyn, dechreuom ddatblygu strategaeth e-ddysgu neu 'ddysgu drwy gymorth technoleg', gyda chymorth is-grŵp arbenigol y Pwyllgor Dysgu ac Addysgu. Cam cyntaf y datblygiad oedd ymgynghori ar ddatganiad ar e-ddysgu.

## Graddau Sylfaen

Yn unol â'n cylch gwaith, comisiynwyd astudiaeth gennym ar Raddau Sylfaen yng Nghymru gan SQW Ltd. Cymeradwywyd argymhellion yr ymgynghorwyr gennym ac adroddwyd wedyn i Lywodraeth y Cynulliad.

## Llais y myfyriwr

Dangosodd canlyniadau'r ail Arolwg Myfyrrwyr Cenedlaethol fod ar draws 80% o'r rhai a ymatebodd yn 2006 yn fodlon ar eu cyrsiau. Nid yn unig fod yna welliant ar y flwyddyn flaenorol ar nifer o gwestiynau, ond roedd y myfyrrwyr wedi'u eu rhyfeddu'n fawr gan frwdfrydedd y staff a'r ysgogi deallusol a gynigiwyd gan eu cyrsiau.

Yn dilyn hyn, adroddwyd gennym ar ddulliau prifysgolion a cholegau yng Nghymru o annog myfyrrwyr i ddweud eu dweud. Edrychai'r adroddiad ar strwythurau cynrychioli myfyrrwyr ar sut roedd cyfranogiad myfyrrwyr, y mae'r sefydliadau yn ei ystyried yn hanfodol, yn helpu i ddiogelu ansawdd y cyrsiau drwy sicrhau bod safbwyntiau'r myfyrrwyr yn cael eu bwydo'n ôl i'r brifysgol, fel ei bod yn gallu gweithredu arnynt.

Dangosai'r astudiaeth fod gan y sefydliadau at ei gilydd systemau wedi'u datblygu'n dda ar gyfer annog myfyrwyr i gyfrannu, gyda chysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol da rhwng yr uwch reolwyr a llywydd Undeb y Myfyrwyr.

### Ein pwyllgorau

Mae Pwyllgor Dysgu ac Addysgu (PDA) CCAUC yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac yn adrodd yn flynyddol i'n Cyngor ar wella dysgu ac addysgu mewn sefydliadau addysg uwch. Mae is-grŵp o aelodaeth y PDA, y Pwyllgor Asesu Ansawdd, yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ac yn monitro'n cytundeb â'r ASA.

### Cyrsiau i fyfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg

Gosododd *Ymgeisio'n Uwch* darged fod 7% o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn astudio yng Nghymru yn cymryd rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010.

Erbyn Gorffennaf 2006, cyflwynodd cwmni ymgynghori Arad Cyf ei adroddiad ar fodelau posibl ar gyfer cyflwyno darpariaeth AU cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol. Argymhellodd yr adroddiad sefydlu fframwaith strategol cenedlaethol cryf i arwain yn y datblygu ar fwy o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn hwyr yn 2006, mewn cam mawr ymlaen, cafwyd ymrwymiad gan y sector addysg uwch, drwy AUC, i sefydlu'r fframwaith strategol, a chynllun datblygu cynhwysfawr. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg newydd sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob SAU yng Nghymru. Cynhaliodd y grŵp ei gyfarfod cyntaf yn Chwefror 2007, dan gadeiryddiaeth yr Athro Hazel Walford Davies.

Parhawyd i gefnogi'r Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, a bydd ganddi rôl gryfach i'w chwarae yn y fframwaith strategol newydd. Mae

ymgyrch farchnata *Mantais*, a drefnir gan y Ganolfan mewn cydweithrediad â'r sector, yn annog myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Y Ganolfan sy'n gweinyddu'r Cynlluniau Ysgoloriaethau a Chymrodoriaethau Ôl-radd Addysgu Cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan CCAUC. Maent yn galluogi myfyrwyr sydd ar fin cychwyn ar radd ymchwil neu sydd eisoes wedi cwblhau un i gael profiad o addysgu a datblygu modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2006/07 gwelwyd cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cymrodoriaethau gyrfaoel mewn meysydd pynciol lle nad gradd ymchwil o reidwydd oedd y llwybr at addysgu AU.

Darparwyd gennym Gronfa Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o £325K i gefnogi sefydliadau wrth ddatblygu eu portffolios.

Ym Medi 2006 cyhoeddassom hefyd adroddiad gan London Economics ar gostau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn dilyn ymgynghori â sefydliadau, cyflwynwyd newid a ganiatâi i fwy o ddarpariaeth fod yn gymwys i gael ein premiwm cyfrwng Cymraeg, a delir i sefydliadau i gydnabod y gost ychwanegol o ddarparu modiwlau cyfrwng Cymraeg. Dyrannwyd mwy na £1.3 miliwn yn y ffordd hon yn 2006/07.

### Targedu meysydd i'w datblygu

Sefydlwyd datblygu cronfa o £100k i gynorthwyo SAUau i gyflawni rhai o'r argymhellion yn ein hadolygiad o ieithoedd tramor modern mewn addysg uwch drwy gydweithredu â chyrff eraill. Cawsom un cynnig sengl ar y cyd gan nifer o sefydliadau yn y sector, dan arweiniad y Brifysgol Agored yng Nghymru ac mewn partneriaeth â CILT Cymru (y Ganolfan Wybodaeth ac Ymchwil ar Ddysgu Ieithoedd).



# Ymchwil Ragorol

## Cyllido ymchwil o safon

Dosbarthwn y rhan fwyaf o'n cyllido ar gyfer ymchwil drwy ein dyraniadau cyllido fformiwla:

- Seilir dyraniadau Ansawdd Ymchwil (AS) ar ganlyniadau'r Ymarferiad Asesu Ymchwil (YAY) diweddaraf yn 2001 ac roedd yn gyfanswm o £60.9 miliwn yn 2006/07; a'r
- Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil (CBY), a oedd yn caniatáu i sefydliadau fuddsoddi'n strategol drwy ddatblygu, cryfhau neu ail-lunio'u proffiliau ymchwil, yn gyfanswm o £4.1 miliwn.

## Asesu ymchwil

Wrth baratoi ar gyfer yr ymarferiad adolygu ymchwil nesaf ledled y DU, byddwn yn dyfarnu £5 miliwn ychwanegol i sefydliadau i gynorthwyo gyda'u paratodau ar gyfer Ymarferiad Asesu Ymchwil (YAY) 2008.

Bydd angen inni adolygu'r dull byddwn yn cyllido ymchwil yn dilyn YAY 2008. Wrth baratoi at hyn, adolygwyd ein polisi ymchwil yn 2006/07 mewn ymgynghoriad â'r sector. Arweiniodd hynny at gyhoeddi datganiad o amcanion polisi adolygedig a fydd o gymorth inni lunio'r fframwaith cyllido ymchwil i'r dyfodol.

Adroddodd yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (ASA) ar ei hadolygiad arbennig o raglenni graddau ymchwil yng Nghymru. Gwnaed hyn ar ein cais ni i gynorthwyo sefydliadau i asesu 'gweddu'n dda' a oedd rhwng arferion y sefydliadau a Chod Ymarfer diwygiedig yr ASA ar raglenni graddau ymchwil. Daeth i'r casgliad fod y gweithdrefnau sydd gan SAUau, at ei gilydd, i sicrhau a chryfhau ansawdd a safonau'r rhaglenni graddau ymchwil yn gyffredinol addas a boddhaol.

## Buddsoddi mewn ymchwil wyddonol

Roedd rhandaliad cyntaf y £46.5 miliwn a roddir drwy Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil Wyddonol y DU gyfan (SRIF3) ar gael yn 2006-07. Bydd SAUau yn defnyddio'r arian hwn i fuddsoddi yn yr isadeiledd ymchwil, megis adeiladau, cyfleusterau ac offer. Mae'r rhain yn hanfodol i'r sefydliadau gynnal ymchwil o'r radd flaenaf, yn enwedig mewn gwyddoniaeth a thechnoleg

Ymysg yr enghreifftiau o brosiectau a gyllidir mae:

- buddsoddiad mewn offer a chyfleusterau i gefnogi'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter sydd gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor;
- rhaglen o adnewyddu sylweddol ar labordai ar gyfer ymchwil feddygol ym Mhrifysgol Caerdydd;
- buddsoddiad mewn cyfleusterau TG newydd i gefnogi e-ymchwil a chydweithrediadau ymchwil; ac
- offer a chyfleusterau ar gyfer y Sefydliad Gwyddorau Bywyd newydd ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae'r Cynllun Gwobrau Gwyddoniaeth ac Arloesi, a gynhelir gan y Cyngor Ymchwil Peirianeg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) mewn partneriaeth â'r pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU, wedi ei fwriadu i ysgogi a chryfhau ymchwil mewn meysydd a fydd o gymorth i ymchwil yn y DU er mwyn aros yn gystadleuol. Prifysgol Caerdydd oedd yr unig sefydliad yn y DU i gael gwobr am ymchwil ym maes ynni adnewyddadwy yn rownd 2006 y cynllun. Bydd y wobwr yn cefnogi sefydlu Canolfan ar gyfer Cynhyrchu a Chyflenwi Ynni Adnewyddadwy Integredig yn Ysgol Beirianeg y Brifysgol.

### Canolfan Newydd i Ddwyieithrwydd

Cyhoeddodd y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) gyllid gwerth £5miliwn ar gyfer canolfan ymchwil newydd i astudio dwyieithrwydd, y cyfrannwyd ato gan CCAUC a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Bangor, mae'r ganolfan yn anelu at ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd ar draws y byd. Bydd yr ymchwil yn canolbwyntio ar natur y berthynas rhwng y ddwy iaith fydd gan siaradwyr dwyieithog unigol yn ogystal ag ymysg y gymuned ehangach.

## Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas

### Cyllido gweithgareddau Trydedd Genhadaeth

Mae gweithgareddau trydedd genhadaeth mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau) yn cymhwyso a defnyddio gwybodaeth sydd, yn eu tro, o fudd i ddatblygu cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd yng Nghymru.

Mewn unrhyw flwyddyn, mae SAUau yng Nghymru yn cyfrannu mwy na £1 biliwn mewn gwariant gros at economi Cymru ac yn cynhyrchu mwy na 30,000 o raddedigion ac ôl-raddedigion.

Mae ein Cronfa Trydedd Genhadaeth yn mynnu bod sefydliadau yn cynhyrchu strategaethau sy'n amlinellu sut byddant o les i AU a'r economi, ac yn cefnogi lles cymdeithasol a diwylliannol yn y gymuned leol a Chymru gyfan. Dosbarthwyd mwy na £5.1 miliwn gennym drwy'r gronfa hon yn 2006/07, a oedd wedi cynyddu o £2 filiwn ers ei chychwyn ddwy flynedd ynghynt.

Edrychwyd yn ôl ar sut roedd y Gronfa wedi gweithredu dros ei chyfnod o dair blynedd o fodolaeth. Yn hydref 2006, yn dilyn ymarferiad ymgynghorol a gweithdy, awgrymodd ymatebwyr eu bod yn cefnogi'n fras gynigion i roi peth cyllid trydedd genhadaeth o'r neilltu ar gyfer datblygiadau cydweithredol, addasu'r

fformiwla gyffredinol at ddyrannu cyllid, a gwobrwyo perfformwyr boddhaol.

### Gweithio gyda Phartneriaid

Ein nod yw bod o les i'r economi a'r gymdeithas drwy gyflawni perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol.

Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei strategaeth wyddoniaeth i Gymru yn hydref 2006. Gweithiasom yn agos gyda chydweithwyr yn y Cynulliad wrth ei pharatoi ac rydym eisoes wedi mynd â'r agenda yn ei blaen, er enghraifft, drwy ein cefnogaeth i Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru a Sefydliad Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol Cymru. Mae CCAUC hefyd wedi bod yn ymwneud yn agos ag ymdrechion i fasnacheiddio gweithgareddau gwyddonol yn well.

Rydym wedi dal ati i annog mwy o ymgysylltu rhwng SAUau a'r Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau). Rhoddodd sefydliadau fanylion am sut y byddent yn gwario'r £20k sydd ar gael naill ai i feithrin cysylltiadau â CSSau neu alluogi cefnogaeth ar gyfer cyflawni Cynllun Gofodol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ymatebodd CCAUC i adolygiad annibynnol 'Webb' ar addysg bellach yng Nghymru, gan bwysleisio'r cyfle i drawsffurfio llwybrau dilyniant rhwng AB ac AU. Tanlinellwyd pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol gan gyflogwyr drwy Raddau Sylfaen o safon uchel, a ddylai fod â'r enw da o fod yn gymhwyster addysg uwch a ddyfernir gan sefydliad addysg uwch.

Argymellasom y dylent gael eu datblygu a'u darparu drwy gydweithredu rhwng partneriaethau cyflogwyr AU/AB - gan osgoi cystadleuaeth ddianghenraid rhwng darparwyr - gydag elfen ddysgu mewn gwaith gref. Daethom i'r casgliad y byddai cost ar hyn, na fyddai'n cael ei gyflawni heb leoedd wedi'u cyllido'n ychwanegol.

### Sut mae sefydliadau Cymru yn perfformio

Roedd AU yng Nghymru unwaith eto'n parhau i fod uwchlaw ei ddisgwyliadau wrth gyfrannu at les economaidd a chymdeithasol. Dangosai'r Arolwg Ryngweithio Addysg a Chymuned (HEBCIS) ar gyfer y DU, er bod addysg uwch Cymru yn cynrychioli tua 5% o'r ddarpariaeth AU yn y DU, fod Cymru:

- Yn cyfrif am 11% o'r incwm o ymchwil gydweithredol a gynhwysai cyllido cyhoeddus a chyllido gan fusnesau, gan berfformio'n well na chwech allan o'r naw ardal Datblygu Economaidd yn Lloegr. Mae cynhyrchu incwm yng Nghymru wedi cynyddu yn y maes hwn o fwy na 70% er 2001/02;
- Yn cyfrif am bron 9% o incwm y DU o gytundebau ymgynghorol gyda mentrau bychain a chanolig (SMEs). Er 2001/02, mae'r nifer o gytundebau ymgynghorol gyda SAUau yng Nghymru wedi cynyddu dros 300%.
- Â bron 7% o bortffolios cronol o batentau gweithredol, eto'n perfformio'n well na

saith allan o naw o Ranbarthau Datblygu Economaidd Lloegr. Mae gweithgaredd patent yng Nghymru wedi cynyddu'n arwyddocaol er 2001/02; ac

- Wedi cynhyrchu 13.5% o'r holl gwmnïau deillio addysg uwch a gweithgaredd a gychwynwyd gan staff a 13.5% o'r holl gwmnïau a gychwynwyd gan myfyrwyr yn y DU. Er 2001/02 mae'r nifer o gwmnïau deillio ac a gychwynwyd gan staff sydd wedi goroesi am fwy na thair blynedd wedi cynyddu o 88% gydag amcangyfrif trosiant yr holl gwmnïau sy'n weithredol yn cynyddu o dros 69% i fwy na £37 miliwn.

### Hyrwyddo datblygu cynaliadwy

Cynyddwyd cyfrifoldebau CCAUC yn y maes hwn yn dilyn cyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) ym Medi 2006. Gofynnwyd i'r SAUau, am y tro cyntaf, ddarparu adran ar wahân yn eu Cynlluniau Strategol i ymdrin â'u gweithgareddau mewn perthynas ag ADCDF. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth fuddiol inni am yr ystod o weithgareddau ar draws y sector a oedd yn ymwneud yn bennaf â gweithgareddau amgylcheddol neu ag ystadau.

### Cyflogadwyedd graddedigion

Yn ôl astudiaeth bwysig a gyllidwyd gan CCAUC gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) mae gwerth gradd yn parhau yn uchel. Edrychai *Graddedigion Cymreig a'u Swyddi: Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yng Nghymru* ar brofiad y farchnad lafur a pherfformiad graddedigion yng Nghymru.

Dangosai'r adroddiad, ar waethaf rhai pryderon fod ehangu AU yn arwain at orgyflenwi, fod graddedigion yn dal i fod ar eu hennill o'u graddau, yn enwedig y rhai â chymwysterau ar lefel ôl-raddedig. Roedd cyfraddau cyflogaeth ar

gyfer graddedigion fymryn yn uwch yng Nghymru na gweddill y DU. Dangosai'r adroddiad hefyd fod graddedigion yng Nghymru yn ennill ar draws 46% yn fwy'r flwyddyn na'r rhai wedi cymhwyso at lefel A.

## GO Wales

Canfu'r astudiaeth hefyd fod Cymru ar flaen y gad gyda mentrau cyflogadwyedd yn y DU, gyda chynlluniau fel GO Wales CCAUC sydd wedi cryfhau cysylltiadau cyflogwyr â'r prifysgolion. Mae'r rhaglen hon a ariennir yn rhannol gan ESF yn dod â graddedigion a busnesau at ei gilydd drwy gefnogi lleoliadau gwaith.

Mae'r ffigurau diweddaraf gan GO Wales yn dangos bod:

- mwy na 12,000 o fyfyrwyr a graddedigion a 2,500 o gwmnïau bach a chanolig ar eu hennill o'r gwasanaeth;
- mwy na 1,300 o fyfyrwyr a graddedigion wedi eu lleoli gyda Busnesau Bach a Chanolig ar leoliadau gwaith prosiect a thros 800 o fyfyrwyr a graddedigion wedi ymgymryd â chyfnod byr o brofiad gwaith gwirfoddol; a
- bod bron i  $\frac{3}{4}$  y cyrff a gymerai ran yn cynnig cyflogaeth bellach i'w myfyrwyr neu raddedigion.

## Gweithlu sgilgar i Gymru

Mae'r sector AU yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau y gall Cymru gynnig y lefel sgiliau uwch sydd eu hangen i ddenu busnesau newydd a galluogi'r cwmnïau sydd gennym i gystadlu'n llwyddiannus. Credir bod AU yng Nghymru yn aml ar y blaen i weddill y DU mewn sawl maes gyda'r agenda sgiliau a chyflogaeth.

Cafwyd tri adolygiad pwysig yn 2006-07 i danategu a hysbysu'r agenda hon, a bu inni

gyfrannu at ddau ohonynt a byddwn yn chwarae rhan wrth eu gweithredu (astudiaeth SQW wedi ei chyllido gan CCAUC o raddau sylfaen ac adolygiad Webb ar addysg bellach). Gyda'r trydydd, adolygiad Leitch ar sgiliau byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y Cynulliad a'r sector i sicrhau bod Cymru yn cymryd y camau angenrheidiol i godi a chynnal y sgiliau lefel uchel sydd eu hangen ar fusnes a masnach.

## Pwyllgorau

Mae ein Pwyllgor Trydedd Genhadaeth yn goruchwylio gweithgaredd CCAUC yn y maes hwn. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys partneriaid o'r sector AB yng Nghymru, busnes a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Addysg Feddygol

Rydym wedi cyfrannu at ddatblygiadau mewn addysg ac ymchwil feddygol ar lwyfan y DU drwy ein haelodaeth o Bwyllgor Cynghori Addysg Gofal Iechyd y DU (UKHEAC).

Mae hyfforddiant meddygol ar lefel israddedigion yn cael ei gyflawni fel 'both' ym Mhrifysgol Caerdydd gyda 'sbôcs' hyfforddiant clinigol yn Abertawe, Bangor a Chasnewydd. Mae cynllun mynediad graddedigion newydd yn gweithredu ar y cyd rhwng Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe.

## Datblygiadau Ewropeaidd a rhyngwladol

### Consortium Rhyngwladol Cymru (WIC) a recriwtio myfyrwyr rhyngwladol

Am y bedwaredd flwyddyn yn olynol mae Cymru wedi sicrhau ffigurau sy'n torri'r record yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n dewis Cymru ar gyfer eu haddysg uwch. Cofrestrodd mwy na 7,000 o fyfyrwyr i astudio yn 2006/07,

sy'n gynydd o 8% ar ffigur y flwyddyn flaenorol a chynnydd o 20% yn y pedair blynedd diwethaf.

O'r 12 sefydliad sy'n ffurfio Consortiwm Rhyngwladol Cymru (y mae CCAUC yn gyllidwr o bwys arno), mae wyth ohonynt wedi cofnodi cynnydd arwyddocaol yn eu ffigurau myfyrwyr rhyngwladol.

Dangosodd astudiaeth yn Hydref 2006, a gomisiynwyd gan Addysg Uwch Cymru (AUC), fod y gwerth gros cyfan a ychwanegwyd gan AU at economi Cymru yn 2004/05 yn fwy na £1.6 biliwn ac roedd £69.7 miliwn ohono i'w briodoli'n uniongyrchol i fyfyrwyr rhyngwladol. Cofnododd SAUau £50.7m mewn incwm rhyngwladol yn yr un flwyddyn.

### Addysg Uwch Cymru Brwsel (AUCB)

Lansiwyd Addysg Uwch Cymru Brwsel (AUCB) ym Mawrth 2006 ac roedd wedi ei staffio'n llawn yn Awst. Partneriaeth yw AUCB, wedi ei sefydlu drwy gydweithrediad sefydliadau addysg uwch Cymru, AUC a CCAUC, ei noddwr mwyaf. Lleolir yn Nhŷ Cymru, Brwsel.

Nod allweddol AUCB yw uchafsymio'r enillion i sector AU Cymru drwy ymgysylltu ag Ewrop ehangach, drwy ychwanegu gwerth at y gallu presennol a'r ddarpariaeth gwasanaeth ym Mrwsel.

Mae AUCB yn unigryw yn Ewrop, gan mai hi yw'r unig swyddfa ym Mrwsel sy'n cynrychioli'n benodol sector AU cenedlaethol gyfan sy'n cyfateb i un o ranbarthau Ewrop.

## Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Rydym yn cefnogi sefydliadau addysg uwch (SAUau) yng Nghymru wrth iddynt gyflwyno athrawon o ansawdd uchel sydd newydd gymhwyso, ac rydym yn gweithio gyda hwy i gyrraedd targedau derbyn a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer athrawon dan hyfforddiant ar lefel gynradd ac uwchradd.

Mae SAUau yn parhau i ddenu niferoedd uchel o athrawon cynradd dan hyfforddiant, gyda 1,059 wedi eu recriwtio yn erbyn targed o 1,036. Roeddem yn cynnal ymdrechion ariannol a rhai eraill i reoli gor-recriwtio ar gyrsiau cynradd.

Rydyn yn monitro'n agos y recriwtio ar bynciau uwchradd, gan fod denu hyfforddeion at addysgu uwchradd yn aml wedi profi'n her, yn enwedig mewn bynciau ble ceir prinder. Rydym wedi gweithio gyda'r sefydliadau i sefydlu

targedau realistig ar gyfer recriwtio i gyrsiau uwchradd, ond gan dalu sylw i feysydd ble roedd prinder athrawon, megis gwyddoniaeth neu gyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Recriwtiodd SAUau 1,123 o hyfforddeion ar gyrsiau uwchradd, yn erbyn targed o 1,280. Cynhwysai hyn 807 wedi eu recriwtio i feysydd pynciau blaenoriaeth, ble roedd y targed yn 792.

### Ailgyflunio hyfforddiant athrawon yng Nghymru

Yn 2006-07, dechreuom fodelu goblygiadau newidiadau yn y sector HCA y cytunwyd arnynt gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn dilyn argymhellion adolygiad Furlong ar HCA yng Nghymru.

Gan weithio gyda'r sector a Llywodraeth y Cynulliad, rydym yn ffurfio ailgyfluniad o ddarpariaeth HCA yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r nifer cyfan o athrawon a hyfforddir yng Nghymru, yn enwedig o gofio am orgyflenwad o athrawon cynradd. Cafodd targedau derbyn cynradd eu lleihau gennym o 5% yn 2006/07, gyda chyllid yn hafal i'r lleihad yn y niferoedd targed yn cael ei rannu rhwng sefydliadau er mwyn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth a sicrhau bod cyrsiau yn parhau yn hyfyw.

### **Strategaethau ar gyfer Hyfforddiant Cychwynol Athrawon**

Rydym yn cyllido sefydliadau i gynllunio'n fwy strategol yn y maes hwn ac i ystyried y blaenoriaethau a osodwyd gan CCAUC, Estyn a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dyrannwyd £1,131,380 yn 2006/07. Rhoesom fwy na £0.25 miliwn i SAUau ddatblygu eu partneriaethau gydag ysgolion, sy'n parhau yn rhan hanfodol o gyrsiau hyfforddi athrawon.

Ar waetha'r ansicrwydd yn y sector a achoswyd gan yr adolygu ar HCA, mae sefydliadau yn parhau i gynllunio sut mae cynyddu recriwtio o blith grwpiau a dangynrychiolir ac yn ymestyn a chefnogi darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac i ddysgwyr Cymraeg.

Roeddem yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion recriwtio mewn addysgu uwchradd drwy fynychu *Hyfforddiant Athrawon Cymru*, rhwydwaith ar gyfer y rhai sydd a wnelo â hyfforddi athrawon mewn sefydliadau AU. Roeddem yn gweithio hefyd gydag Ymgynghorydd Recriwtio Athrawon Cymru yr Asiantaeth Hyfforddi a Datblygu i Ysgolion (TDA) ar gytundeb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo addysgu fel gyrfa yng Nghymru.

### **Cynnal ansawdd hyfforddiant athrawon**

2006/07 oedd y flwyddyn olaf ond un yng nghylch cyfredol arolygiadau Estyn o ddarpariaeth HCA mewn sefydliadau yng Nghymru. Arolygwyd Prifysgol Aberystwyth eleni.

### **Gwybodaeth am berfformiad**

Dangosai'r wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant athrawon fod Cymru yn parhau i fod yn gyrchfan poblogaidd i athrawon dan hyfforddiant gyda 3,793 i gyd yn hyfforddi yma yn 2005/06. Roedd 2,406 yn hyfforddi i addysgu ar lefel gynradd, gyda'r lleill ar lefel uwchradd.

Enillodd 1,923 o fyfyrwyr Statws Athro Cymwys (SAC) yn 2005/06; a hyfforddodd 16% drwy gyfrwng y Gymraeg.



# Gwneud iddi Weithio: y sector AU yng Nghymru

## Ailgyflunio a chydweithredu

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynyddu ysfa gystadleuol SAUau a chodi eu perfformiad ymhellach. Mae ailffurfio'r sector AU yng Nghymru yn parhau yn allweddol i allu cyflawni hyn yng Nghymru.

Mae ein Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio o gymorth i wneud hyn yn realiti i'r sefydliadau. Clustnodwyd mwy na £25 miliwn gennym ar gyfer datblygiadau newydd yn 2006/07

- £5 miliwn i'r prifysgolion yn Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Chaerdydd i ddatblygu Canolfan Cymru ar gyfer y Gwyddorau Mathemategol a Chyfrifiadurol, a fydd yn gwella ysfa gystadleuol yr ymchwil yn y maes hwn yng Nghymru, yn cynyddu incwm ar gyfer ymchwil ac yn gweithio gyda diwydiant i annog ymchwil a fydd o fudd i 'economi gwybodaeth' Cymru.
- £12.75 miliwn ar gyfer datblygu Cynghrair Strategol rhwng Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a Phrifysgol Morgannwg. Bydd y Gynghrair hon o gymorth i sicrhau llwyddiant i'r dyfodol i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Ysgol Gerddoriaeth Genedlaethol Cymru, drwy alluogi iddo ddatblygu ei gyfleusterau yn sylweddol fwy nag y byddai'n bosibl fel arall. Bydd hefyd yn caniatáu i'r Coleg elwa ar gysylltiadau â'r Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd newydd sydd yn y Brifysgol.
- £7.5 miliwn ar gyfer cydweithredu rhwng Prifysgol Abertawe, Athrofa Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin a fydd yn arwain at integreiddio ystod eang o wasanaethau a swyddogaethau gweinyddol, gan gynnwys cofnodion myfyrwyr a systemau mewnrwyd; creu llyfrgell 'rithwir' de orllewin Cymru a

gwasanaeth gyrfaoedd; cydweithredu mewn swyddogaethau rheoli ystadau, ac ymagwedd gydlynol at gynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r cydweithredu hwn yn cynyddu effeithlonrwydd swyddogaethau'r swyddfa gefn, yn gwella gwasanaethau ac yn cynnig profiad dysgu gwell i'r myfyrwyr yn y tri sefydliad.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad yn y flwyddyn flaenorol ar ddarparu AU ar ôl 92 yn ne ddwyrain Cymru, trefnwyd cyfarfod gennym ar gyfer Cadeiryddion, Llywodraethwyr, aelodau Byrddau Academaidd ac Is-gangellorion y sefydliadau hyn yn Rhagfyr 2006. Cytunodd y cyfarfod, dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ron Cooke, y dylid cynnull grŵp strategol, yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gangellorion, i ystyried ffordd ymlaen a oedd yn dderbyniol gan bawb.

## Cyllid ar gyfer datblygiadau strategol

Defnyddir y Gronfa Datblygu Strategol (CDS) i gefnogi cydweithredu llai costus a mentrau strategol eraill, ar draws y DU. Y llynedd, neilltuwyd:

- £5.3 miliwn dros dair blynedd i NEWI i gryfhau ei safle fel sefydliad addysg uwch Cymru yng ngogledd ddwyrain Cymru ac i wella'r amgylchfyd dysgu;
- £1.5m wedi ei rannu rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd ar gyfer prosiect dwy flynedd i ehangu'r cyfleoedd addysg uwch sydd ar gael i drigolion Cymoedd De Cymru; a
- Bron i £230k ar gyfer prosiect dan arweiniad Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd i archwilio modelau ar gyfer datblygu dysgu yn y gwaith mewn addysg uwch.

## Yr oruchwyliaeth ffioedd dysgu newydd yng Nghymru

Derbyniasom y cyfrifoldeb dros gymeradwyo cynlluniau ffioedd dysgu'r SAUau, yn dilyn cadarnhad y caniateid i'r sefydliadau gyflwyno ffioedd hyblyg yn 2007/08.

Yn 2006/07 dyrannwyd cyllid ychwanegol o'r Cynulliad gennym i'r sefydliadau ar sail beth fyddai eu hincwm o ffioedd wedi bod petaent wedi cael codi ffioedd hyblyg yn 2006/07. Gofynasom i'r sefydliadau gynnig cynlluniau yn amlinellu beth y byddent yn ei wneud â'r 'incwm atodol' hwn, a thalwyd y cyllid ar yr amod eu bod yn neilltuo 15% ohono ar gyfer gweithgareddau i ehangu mynediad, cynyddu cyfranogiad a hyrwyddo AU.

## Cynllunio strategol

Mae deall SAUau drwy eu cynlluniau strategol yn rhan hanfodol o'r ddeialog barhaus sydd rhyngom a hwy. Mae hefyd o gymorth i hysbysu ein mewnbwn i bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Hon oedd y bedwaredd flwyddyn i'r sefydliadau adrodd ar eu cynnydd yn erbyn targedau *Ymgeisio'n Uwch* (gweler yr adran yn ddiweddarach yn yr adroddiad). Rydym wedi monitro'u cynnydd, gan ddarparu adborth iddynt ar y cynlluniau ac wedi gweithio gyda hwy ar y meysydd perfformiad oedd angen yr hwb mwyaf. Roeddem hefyd yn gwirio cynnydd yn erbyn nifer o strategaethau drwy dderbyn datganiadau monitro blynyddol gan y sefydliadau.

## Pynciau o bwysigrwydd ehangach

O fewn cyd-destun marchnad AU sy'n datblygu ac anogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio'n cyllid craidd yn fwy strategol, adroddasom ar y gweithredu sy'n angenrheidiol

i ddiogelu neu hyrwyddo'r ddarpariaeth ar bynciau o bwysigrwydd ehangach yng Nghymru.

O gofio cyd-destun recriwtio Cymru-Lloegr i addysg uwch, daethom i'r casgliad, ac eithrio'r iaith Gymraeg, llenyddiaeth a diwylliant Cymru, a'r meysydd proffesiynol hynny sy'n ymateb i gyd-destun Cymreig penodol, nad oes ar hyn o bryd unrhyw bynciau sy'n haeddu ymyrraeth o'r ochr cyflenwi.

Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa, yn chwilio am fesurau priodol gyda Lloegr i ysgogi mwy o alw am bynciau ble mae'r galw yn gymharol brin ac yn talu sylw manwl i ddarparu pynciau gwyddoniaeth yng nghyd-destun Polisi Gwyddoniaeth Llywodraeth y Cynulliad.

## Defnyddio cyllido craidd yn strategol

Ystyriwyd mesurau newydd gennym i ddefnyddio ein cronfeydd craidd mewn ffordd fwy strategol a thargedu meysydd a allai elwa o ymyrraeth strategol yn y trefniadau cyllido presennol. Byddai'r rhain yn cynnig gwell ysgogiadau i'r sector gwrdd â blaenoriaethau CCAUC.

Roedd y rhain yn cynnwys llywio cyllidol ym meysydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg, sgiliau, gallu ymchwil, cyflogaeth graddedigion, cynaliadwyedd ac ehangu mynediad.

## Monitro ariannol

Rydym yn adolygu rhagolygon ariannol pum mlynedd y sefydliadau, eu datganiadau ariannol canol blwyddyn a'u datganiadau ariannol archwiliedig blynyddol.

Roedd adolygiad o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2005/06 a gafwyd yn Rhagfyr 2006, yn dangos bod:

- sefyllfa ariannol gyffredinol y sector wedi gwella, gyda gwarged gweithredu o £11.9m;
- y gwarged gweithredu yn cynrychioli 1.29% o gyfanswm yr incwm;
- tri o'r sefydliadau wedi dangos colled gweithredu, o'i gymharu â dau'r flwyddyn flaenorol; a
- hyfywedd ariannol wedi gwella i'w gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gydag asedau hylifol net y sector yn cynyddu o £23m.

### Llywodraethu

Mae ansawdd llywodraethu yn hanfodol i berfformiad effeithiol y sefydliadau. Rydym yn craffu'n fanwl ar systemau llywodraethu sefydliadau ac wedi casglu eu bod yn gweithredu'n foddhaol ar y cyfan.

### Deialog gyda'r sector

Parhawyd â'n cylch tair blynedd o ymweliadau sefydliadol gyda holl sefydliadau addysg uwch Cymru. Mae hyn wedi bod yn gyfle ardderchog inni:

- ymwneud yn llawnach â sefydliadau unigol;
- cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau'r Cyngor a'r Tîm Rheoli am y sefydliadau hyn; a
- gwella ein dulliau adborth i sefydliadau.

Gallem drafod, ar y lefel uchaf, y materion pwysicaf roedd y sefydliadau yn eu hwynebu yn ogystal â'r hyn a welent fel eu camau nesaf, a chawsom ein tywys o amgylch rhai o gyfleusterau mwyaf trawiadol y sefydliadau, gan gynnwys canolfannau celf a dylunio a chyfleusterau ymchwil.

### Ystadau

Cawsom strategaethau ystadau newydd gan y sefydliadau'r llynedd, ble roedd y sefydliadau yn

ystyried eu gofynion ystadau unigol yn unol â'u gofynion, yn ogystal â gofynion llety myfyrwyr a chynaliadwyedd yr ystâd mewn perthynas â materion ariannol, amgylcheddol a chynhwysedd.

Mae strategaethau'r ystadau yn awgrymu bod y cynnydd bychan mewn gwariant cyfalaf a welwyd dros y tair blynedd diwethaf yn parhau a bydd yn cyflymu dros y pum mlynedd nesaf gyda nifer o brosiectau cyfalaf sylweddol yn cael eu cynnig. Mae mwy o adrodd ar gynaliadwyedd amgylcheddol yn dangos bod angen mwy o gynnydd yn y maes hwn.

### Cyllido ar gyfer cyfalaf

Rydym yn darparu cyllid cyfalaf i sefydliadau gefnogi buddsoddi mewn adeiladau ac offer ar gyfer addysgu ac ymchwil.

Yn 2006-07, cafodd y sefydliadau gyllid cyfalaf ar gyfer dysgu ac addysgu o ychydig dros £7 miliwn. Gwnaethom ddyraniad cyfalaf ychwanegol o £7.1 miliwn ar ddiwedd 2005-06 i sefydliadau wario yn y flwyddyn ariannol ddilynol. Cefnogai'r dyraniadau hyn ddatblygu'r isadeiledd dysgu ac addysgu a TG, a ddylai fod yn gyson â strategaethau'r sefydliadau fel y rhai ar gyfer dysgu ac addysgu, ystadau, ehangu mynediad ac anabledd.

Yn gynnar yn 2007, ymgynghorwyd â'r sector ar gynigion ar gyfer ymagwedd ddiwygiedig at gyllid cyfalaf o 2008-09 i annog sefydliadau i gymryd ymagwedd dymor hwy at fuddsoddi cyfalaf.

### Hyrwyddo cydraddoldeb

Parhaom i gydariannu'r Uned Her Cydraddoldeb (UHC) gyda chyrff cyllido eraill y DU, sy'n cynnig cymorth i sefydliadau ar ystod o faterion cydraddoldeb.

Cyflogwyd cydlynedd cenedlaethol penodol cyntaf Cymru i gynorthwyo prifysgolion a cholegau i roi eu polisiâu cydraddoldeb ar waith.

Comisiynwyd Partneriaeth Gus John (GJP) gennym i adolygu polisiâu Cydraddoldeb Hiliol sefydliadau a'u cynlluniau gweithredu a darparu adborth manwl i'r sefydliadau.

Mae ein Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb ynghylch Hil, Anabledd a Rhyw yn cynnwys ymrwymadau i gynnwys ystyriaethau cydraddoldeb yn rhan o'n holl nodau strategol.

## Gwneud iddi Weithio: CCAUC a Busnes y Cyngor

### Atebolrwydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Diffinnir y berthynas rhwng CCAUC a Llywodraeth y Cynulliad mewn Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac i'r Cynulliad Cenedlaethol am y defnydd o'r cyllid cyhoeddus a roddir i CCAUC. Mae'r Gweinidog yn cynnal cyfarfod adolygu blynyddol gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ac mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal cyfarfodydd adolygu perfformiad chwarterol gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion CCAUC.

Archwilir ein cofnodion a'n cyfrifon gan swyddfa annibynnol Archwiliwr Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru).

### Cynllunio corfforaethol a gweithredol

Rydym yn cynhyrchu mewn dogfen sengl:

- strategaeth gorfforaethol (yn gosod ein canlyniadau strategol tymor hir);
- cynllun corfforaethol am y tair blynedd ariannol o'n blaenau;
- cynllun gweithredol manwl yn ymdrin â'r gyntaf o'r tair blynedd hynny.

Mae'r cynllun gweithredol yn cynnwys targedau a gweithrediadau a osodir yn Llythyr Cylch Gwaith blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru at CCAUC. Adolygir cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynlluniau yn chwarterol gan ein Cyngor ac mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth y Cynulliad.

### Ymateb i'r Amgylchedd a Rheoli Risg

Fel corff cyfryngol rhwng y Cynulliad a'r sector AU yng Nghymru, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd mae gennym ddylanwad drosto yn hytrach na'n bod yn ei reoli. Rydym yn cynnal

cofrestr risg corfforaethol lefel uchel sy'n nodi risgiau a gysylltir â chyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol, ac â'r amgylchedd ehangach rydym yn gweithredu oddi mewn iddo, a'r mesurau ar gyfer rheoli'r risgiau hynny.

Mae AU yng Nghymru yn rhan o farchnad y DU ac ehangach yn rhyngwladol ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae datblygiadau mewn mannau eraill yn effeithio ar ysfâd gystadleuol y sector yng Nghymru. Er mwyn gallu rheoli hyn, rydym yn cynnal deialog â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch yr angen am gyllido ar lefel sy'n briodol i'r realiti hwn.

Wrth fwrw ymlaen â strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Ymgeisio'n Uwch*, byddwn yn cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i gynnal hyder y sector a'n gallu'n hunain i hwyluso newid. Rydym wrthi'n gydwytbodol yn rheoli'r broses ail-gyflunio a chydweithio ac yn gweithio gyda SAUau i annog partneriaethau pwysig. Rydym hefyd yn defnyddio ein Cronfa Datblygu Strategol i gefnogi newid strategol nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer Cronfa Ailgyflunio a Chydweithio Llywodraeth y Cynulliad.

### Gwella Effeithlonrwydd

Anelwn at weithio'n effeithiol ac effeithlon, a bod yn fodel o gyflogwr, ac rydym wedi cynnal safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Rydym wedi ymrwymo i adolygu'n gyson ein staffio a'n strwythur cefnogi, a hefyd ein systemau ariannol a rhai eraill, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i ddiogelu arian cyhoeddus gan sicrhau gwerth am arian.

### Cyfansoddiad y Cyngor

Yn Ebrill 2006 roedd gan y Cyngor wyth aelod, yn cynnwys y Cadeirydd. Yn ystod y flwyddyn:

- Ni chwblhaodd yr un o'r aelodau eu tymor terfynol ar y Cyngor;
- Gadawodd un aelod y Cyngor;
- Ymunodd dau aelod newydd â'r Cyngor;
- Ailbenodwyd un o'r aelodau presennol i wasanaethu am dymor arall.

Erbyn diwedd 2006-07, roedd 11 aelod, gydag un lle gwag i'w lenwi.

Cyfarfu'r Cyngor wyth gwaith yn 2006-07. Mynychwyd y cyfarfodydd gan asesydd o Lywodraeth y Cynulliad. Mae gan Brif Weithredwyr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr a Chyngor Cyllido'r Alban, yr Is-ysgrifennydd sy'n gyfrifol am addysg uwch yn Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Cyngorau Ymchwil statws sylwedydd ar y Cyngor.

### Yr Adran Weithredol

Roedd y nifer cyfartalog o swyddi cywerth â llawn amser a oedd yn cefnogi'r Cyngor yn 2006-07 yn 57. Roedd hyn yn cynnwys holl staff CCAUC, gan gynnwys swyddi rhan amser, rhannu swyddi, penodiadau tymor sefydlog a staff ar secondiadau tymor hir a thymor byr, yn ogystal â myfyrwyr yn gweithio ar leoliadau.

### Cod Ymarfer a chofrestr buddiannau

Mae angen i bob aelod o'r Cyngor a'r staff gadw at God Ymddygiad a chofrestru buddiannau ariannol, gwleidyddol neu eraill sy'n berthnasol i fusnes y Cyngor. Mae'r gofrestr fuddiannau ar gael o ofyn amdani gan Glerc y Cyngor ac ar y Wefan.

### Dwyieithrwydd

Rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb wrth gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae gennym Gynllun Iaith Gymraeg, wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a Strategaeth Prif Ffrydio'r Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hon yn amlinellu sut rydym yn bwriadu cynnwys ystyriaeth o'r iaith Gymraeg yn ein prosesau llunio polisi a chyflawni gwasanaeth.

Rydym wedi gwneud cynnydd da yn ein hail flwyddyn o weithredu'n Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'r adborth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn gadarnhaol. Mae'r adroddiad cydymffurfio blynyddol ar gael ar ein gwefan.

### **Gweithdrefn gwynion**

Mae gennym Weithdrefn Gwynion a gall Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ymchwilio i CCAUC.

Cawsom un cais i ystyried cwyn o dan y Weithdrefn Gwynion yn ystod y flwyddyn.

### **Darparu gwybodaeth**

Mae Cynllun Cyhoeddiadau CCAUC a luniwyd o dan Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod allan: y wybodaeth a gyhoeddir gennym, neu y byddwn yn ei chyhoeddi, fel mater o gwrs; sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi; ac a yw'r wybodaeth ar gael yn rhad ac am ddim neu am dâl. Mae'r Cynllun Cyhoeddiadau ar gael ar ein gwefan neu mewn copi caled.

### **Cynlluniau cydraddoldeb**

Rydym wedi cyhoeddi Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol a Chydraddoldeb Anabledd. Rydym hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol drafft.

Dogfennau sy'n esblygu'n barhaus yw'r rhain ac rydym yn rhoi sylw i sylwadau a gofynion cyrff megis Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol Cymru, Comisiwn Hawliau'r Anabl, y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal (a ddisodlir i gyd gan y Comisiwn dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Hydref 2007), yr Uned Her Cydraddoldeb a'r sector AU yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnwys staff ac yn ymgynghori â hwy a chyda rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn natblygiad y cynlluniau a'r cynlluniau gweithredu a ddaw ohonynt.

Mae'r cynlluniau'n cynnwys gweithrediadau sy'n ymdrin â CCAUC fel cyflogwr ac â pholisi sydd a wnelo â'r sector AU yng Nghymru.

At ddibenion monitro effeithiolrwydd y broses gymhwyso a'r polisiâu cyflogaeth perthynol, ac er mwyn i ninnau allu canfod a yw pob ymgeisydd ac aelod o'r staff yn cael eu trin yn gyfartal, rydym wedi bod a byddwn yn monitro rhyw, oed, anabledd, statws priodasol, tarddiad hiliol neu ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu greddo ein staff a'r ymgeiswyr a byddwn yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, fel corff bychan, nid oeddem yn gallu cyhoeddi ein data ar gyfer 2005-06 heb i unigolion gael eu hadnabod.

Mae ein gwefan yn cynnwys data monitro ar y sector AU yng Nghymru ac ar CCAUC fel cyflogwr. Wrth fynd i'r wasg, nid oeddem eto wedi cwblhau ffigurau'r staff ar gyfer 2006-07.



**Pwyllgorau a gweithgorau'r cyngor**

*Y Pwyllgor Asesu Ansawdd / Pwyllgor Dysgu ac Addysgu*

Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett

*Y Pwyllgor Archwilio a Risg*

Cadeirydd: Mr Tim Rees

*Y Pwyllgor Adnoddau Dynol*

Cadeirydd: Mrs Tina Stephens

*Y Pwyllgor Tâl*

Cadeirydd: Yr Athro Syr Roger Williams

*Y Pwyllgor Trydedd Genhadaeth*

Cadeirydd: Dr Len Arthur

*Y Panel Ailgyflunio*

Cadeirydd: Dr Geoffrey Thomas

*Grŵp Llywio Cenedlaethol Ymgynraedd yn Ehangach*

Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett

*Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch*

Cadeirydd: Mr Andrew Green

*Pwyllgor Ehangu Mynediad*

Cadeirydd: Yr Athro Philip Gummett

*Panel Asesu'r Gronfa Datblygu Strategol*

Cadeirydd: Yr Athro Syr Roger Williams

*Grŵp Ymateb Ymchwil*

Cadeirydd: yr Athro Syr Brian Smith

# Aelodau'r Cyngor yn Ystod 2006-07

## **Yr Athro Syr Roger Williams, Cadeirydd**

*Cyn Is-ganghellor, Prifysgol Reading  
Penodwyd i'r Cyngor gyntaf yn 1995  
Penodwyd yn Gadeirydd yn 2002  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005*

Addysgwyd yr Athro Syr Roger Williams yn Ysgol Ramadeg Tredegar a graddiodd mewn ffiseg yn Rhydychen. Ar ôl cyfnod gyda'r Bwrdd Glo Cenedlaethol mewn Ymchwil Weithrediadol, roedd ar staff Prifysgol Manceinion o 1966 at 1993 gyda chyfnodau o secondiadau yn UDA, Canada ac Awstralia. Roedd yn Is-ganghellor Prifysgol Reading o 1993 tan 2002.

Roedd yn Ymgynghorydd Arbennig i Bwyllgor Dethol Ty'r Arglwyddi ar Wyddoniaeth a Thechnoleg o 1986 at 1992 ac yn Gadeirydd Cydbwyllgor y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianeg a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

Ymunodd Syr Roger â'r Cyngor yn 1995 a phenodwyd ef yn Gadeirydd ar 1 Mawrth 2002 am gyfnod o 3 blynedd, at 28 Chwefror 2005, ac ailbenodwyd tan Chwefror 2008. Urddwyd ef yn farchog yn Anrhydeddau Pen Blwydd y Frenhines 2006 yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth i Addysg Uwch.

## **Yr Athro Philip Gummert, Prif Weithredwr**

*Prif Weithredwr Dros Dro o fis Rhagfyr 2003;  
Prif Weithredwr o fis Mai 2004*

Yr Athro Gummert yw Prif Weithredwr CCAUC. Ymunodd â CCAUC o Brifysgol Manceinion, ble roedd yn Ddirprwy Is-ganghellor, yn gyn Bennaeth yr Adran Llywodraeth ac yn Athro Llywodraeth a Pholisi Technoleg.

Roedd yr Athro Gummert yn un o sylfaenywyr ac yn gyfarwyddwr anweithredol PREST (Ymchwil Polisi mewn Peirianeg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg) ym Manceinion – un o'r canolfannau ymchwil polisi gwyddoniaeth pwysicaf yn y byd, ac mae'n un o sylfaenywyr, ac yn Gadeirydd Bwrdd Arholwyr, Bwrdd Hyfforddi'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

## **Dr Len Arthur**

*Uwch Ddarlithydd newydd ymddeol o Athrofa  
Prifysgol Cymru, Caerdydd  
Penodwyd gyntaf yn 2002  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005*

Mae gan Dr Len Arthur 35 mlynedd o brofiad mewn addysg bellach ac uwch yng Nghymru a Lloegr ac roedd yn uwch ddarlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Ymchwil a Menter yn Ysgol Fusnes yr Athrofa. Mae Dr Arthur wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith Cymdeithas Genedlaethol yr Athrawon mewn Addysg Bellach ac Uwch.

## **Mrs Wendy Heppell**

*Cyn-Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid Cyhoeddus  
yn Business West  
Penodwyd am dymor tair blynedd yn 2003  
Gadawodd Awst 2006*

Rhwng Ionawr 2002 a Chwefror 2005, Wendy Heppell oedd Cyfarwyddwr Menter yn Chwarae Teg, y brif asiantaeth dros ddatblygu economaidd i fenywod yng Nghymru. Cyn hynny, treuliodd un mlynedd ar ddeg yn gweithio yn y diwydiant cemegolion.

Roedd Mrs Heppell yn aelod o Bwyllgor Bwrsariaethau Coleg y Brifysgol, Rhydychen oddi ar ei sefydlu yn 1999 ac roedd yn Ymddiriedolwr i Ymddiriedolaeth Cyn Aelodau'r Coleg.

### **Yr Athro Mari Lloyd-Williams**

*Athro a Chyfarwyddwr y Grŵp Astudiaethau  
Academaidd Meddygaeth Liniarol a Gofal Cefnogol,  
Prifysgol Lerpwl  
Penodwyd am dymor tair blynedd yn Ionawr 2007*

Bu gan yr Athro Lloyd-Williams gadair bersonol yng Nghyfadrannau Feddygol Prifysgol Lerpwl er 2003, ble mae hi hefyd yn ymgynghorydd mewn meddygaeth liniarol ac yn Gyfarwyddwr un o'r rhaglenni addysg feddygol gymunedol mwyaf yn y DU. Roedd yn Uwch Ddarlithydd Anrhydeddus ac yn arweinydd Meddygol yn Hosbis LOROS yng Nghaerlŷr. Mae ganddi broffil rhyngwladol am ei hymchwil ar agweddau seicogymdeithasol ar ganser i gleifion a theuluoedd, a hefyd am ofal lliniarol i gleifion heb ganser, a hi yw'r prif ymchwilydd i nifer o grantiau pwysig.

Mae gan yr Athro Lloyd-Williams brofiad eang ar bwyllgorau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys pwyllgor ymddygiad proffesiynol y CMC a'r Adran Iechyd ar ofal seicogymdeithasol. Yn rhugl ei Chymraeg, mae'n un o ymddiriedolwyr Hosbis St Kentigern a'r capel cynulleidfaol, ac mae'n ynad heddwch.

### **Mr Tim Rees**

*Cyfrifydd Siartredig  
Penodwyd gyntaf yn 2002  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005*

Mae Mr Tim Rees yn Gyfrifydd Siartredig gyda phrofiad helaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Gwasanaethodd ar Fwrdd Prifysgol Morgannwg o 1992 ac roedd yn Gadeirydd y Llywodraethwyr o 1996 tan ei benodiad i CCAUC. Mae Mr Rees wedi gwasanaethu gydag Awdurdod Tir Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru ac Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru.

### **Yr Athro D Garel Rhys OBE**

*Cyn Gyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil i'r  
Diwydiant Modurol, Prifysgol Caerdydd.  
Penodwyd gyntaf yn 2003  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2006*

Roedd yr Athro Emeritws Garel Rhys yn Gyfarwyddwr Canolfan Ymchwil y Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd ac roedd yn dal cadair Cymdeithas y Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau Modur mewn Economeg y Diwydiant Modurol. Roedd yn bennaeth Adran Economeg yr Ysgol Fusnes tan 1999.

Mae'r Athro Rhys yn Gadeirydd Fforwm Modurol Cymru. Mae hefyd wedi cynghori amryw o Bwyllgorau Dethol. Ar hyn o bryd mae'n gadeirydd Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd y Cynulliad Cenedlaethol ac yn aelod o Grŵp Cynghori Gweinidogion yr Adran Economi a Masnach. Mae hefyd yn aelod o Banel Cynghori'r Diwydiant Rasio Moduron. Mae'n Athro Emeritws ym Mhrifysgol Caerdydd.

### **Mr Kenneth Richards**

*Cymrawd Ymchwil Er Anrhydedd yn Ysgol Gwyddorau  
Cymdeithasol Caerdydd  
Penodwyd am dymor tair blynedd yn Ionawr 2007*

Addysgwyd Mr Ken Richards yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd ac Adran Economeg Athrofa Dechnoleg Massachusetts. Treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa fel academydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ble roedd yn y diwedd yn Uwch Ddarlithydd mewn Treth a Chyllid yn yr Ysgol Rheolaeth a Busnes.

Roedd Mr Richards yn aelod o'r ddau adolygiad annibynnol ar gyllid myfyrwyr yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees, ac mae wedi cyhoeddi nifer o bapurau academaidd ar y pwnc hwnnw. Ef yw Trysorydd Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, ac mae'n aelod o Bwyllgor Buddsoddiadau Prifysgol Aberystwyth, ac mae'n eistedd ar Bwyllgor Gwaith Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

### **Yr Athro Syr Brian Smith**

*Cyn Is-ganghellor, Prifysgol Caerdydd  
Penodwyd gyntaf yn 2002  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005*

Penodwyd Syr Brian yn Is-ganghellor Prifysgol Caerdydd yn 1993, ac ymddeolodd yn 2001. Cyn hynny, bu'n bennaeth Coleg y Santes Catherine, Prifysgol Rhydychen. Urddwyd ef yn farchog yn 1999 mewn cydnabyddiaeth o'i lwyddiannau yn adeiladu cysylltiadau o fudd i'r naill ochr a'r llall rhwng y Brifysgol a diwydiant a masnach. Roedd Syr Brian hefyd wedi gwasanaethu gydag Awdurdod Datblygu Cymru o fis Hydref 1988, gan helpu i agor marchnadoedd i Gymru yn India a Tsieina. Syr Brian yw Llysgennad Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd.

### **Mrs Tina Stephens**

*Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygu staff  
Penodwyd gyntaf yn 2002  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2005*

Mae Mrs Tina Stephens yn arbenigwr mewn rheolaeth a datblygu staff ac yn Brif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél a Datblygiad. Mae ganddi 26 blynedd o brofiad mewn addysg uwch ac roedd yn bennaeth Ysgol Fusnes Wrecsam, rhan o Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae Mrs Stephens yn Gadeirydd Grwpiau Cyswllt Gogledd Cymru, rhwydwaith sy'n hyrwyddo datblygiad mentrau bach i ganolig er mwyn meithrin cyfleoedd economaidd a gwaith.

### **Dr Geoffrey Thomas**

*Pennaeth yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol  
Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg  
Penodwyd gyntaf yn 2003  
Ailbenodwyd am dymor tair blynedd yn 2006*

Cymro cynhenid yw Dr Geoffrey Thomas a graddiodd ym Mhrifysgol Abertawe. Enillodd ei radd ymchwil ym Mhrifysgol Caergrawnt. Treuliodd gyfnodau yn ysgolor ar ymweliad yn Sefydliad Smithsonian yn Washington DC, ym Mhrifysgol Harvard, ym Mhrifysgol California yn Berkeley, a Phrifysgol Washington. Mae hefyd wedi bod yn Aelod o Gyngor y Gymdeithas Brydeinig, ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas y Prifysgolion dros Addysg Barhaus, ac yn aelod o Bwyllgor Ymchwilio Swyddfa'r Cabinet i Ddealltwriaeth Gyhoeddus o Wyddoniaeth.

### **Yr Athro Nigel Stott CBE**

*Athro Emeritws Meddygaeth Teulu yng Nghymru  
Penodwyd gyntaf am dymor tair blynedd yn 2006*

Mae'r Athro Nigel Stott ar hyn o bryd yn Athro Emeritws Meddygaeth Teulu yng Nghymru (a leolir ym Mhrifysgol Caerdydd) a dyfarnwyd CBE iddo am Wasanaeth i Feddygaeth yn 2001. Cafodd Gymrodoriaeth Er Anrhydedd o Brifysgol Caerdydd yng Ngorffennaf 2007 ac mae'n gymrawd o Goleg Brenhinol y Meddygon yng Nghaeredin, Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a'r Academi Gwyddorau Meddygol. Bu'n aelod o Gydbwyllgor Meddygol y cyngorau cyllido addysg uwch, y Pwyllgor Sefydlog Addysg i Ôl-raddedigion yng Nghymru, Cyngor RCGP Cymru a Phwyllgor Strategaeth Ymchwil CMPC. Bu hefyd yn gwasanaethu fel aelod anweithredol o Fwrdd Ymddiriedolaeth YPC ac fe'i penodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i gadeirio grŵp cyfeirio a ddatblygai Strategaeth Gofal Sylfaenol i Gymru yn 2001.

# Perfformiad yn erbyn tasgau Llythyr Cylch Gwaith 2006-07

Nod strategol	Gweithred	Canlyniad
Ymgynraedd yn ehangach	Ymgymryd â gwerthusiad llawn o'r fenter Ymgynraedd yn Ehangach ac adolygu ein polisi ehangu mynediad, ac adrodd i'r Cynulliad erbyn Ionawr 2007.	✓ Cyflawnwyd, gan gynnwys adroddiad cychwynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn diwedd 2007.
Y Fargen i Fyfyrrwyr	Cwblhau gwaith i ddarparu cyngor rhagarweiniol ar bynciau o bwysigrwydd ehangach mewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys pa weithredu, os oes angen, y dylid ei wneud i ddiogelu neu hyrwyddo addysgu'r pynciau hynny, ac adrodd i'r Cynulliad erbyn Hydref 2006 [cynhwysir y dasg hon hefyd isod o dan y nod strategol 'Gwneud iddi Weithio: Y Sector Addysg Uwch yng Nghymru']	✓ Cyflawnwyd. Llythyr Cyngori wedi ei anfon at y Gweinidog fis Gorffennaf 2006.
Y Fargen i Fyfyrrwyr	Yng ngoleuni'r Asesiad Opsiynau ar gyfer modelau ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg gynaliadwy i'r dyfodol ac astudio costau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cynnig cyngor i'r Cynulliad ar y ffordd ymlaen, gan gynnwys adnabod y blaenoriaethau yn eglur, erbyn Rhagfyr 2006.	✓ Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cynulliad cytunwyd y cyflwynid y cyngor mewn dau gam. Cyflwynwyd y cam cyntaf yn Ionawr 2007.
Y Fargen i Fyfyrrwyr	Gweithio gyda'r Academi AU ac eraill, a thrwy Bwyllgor Dysgu ac Addysgu'r Cyngor, i lunio rhaglen amlinellol o weithredu erbyn Rhagfyr 2006 sy'n pwysleisio meysydd ble gallai gweithgaredd cydunol ar lefel genedlaethol gyfoethogi'r profiad dysgu mewn sefydliadau unigol.	✓ Cyflawnwyd. Paratowyd rhaglen weithredu gan yr Academi AU a'i chyflwyno i'r Gweinidog erbyn mis Rhagfyr.
Y Fargen i Fyfyrrwyr	Cyfrannu at ffurfio ymateb gan y Cynulliad Cenedlaethol i'r argymhellion fydd yn codi o Adolygiad Graham ar fyfyrrwyr rhan-amser, unwaith y bydd y rhain wedi eu cyhoeddi.	✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor ELL ym Mehefin 2006. [Cyfeirir hefyd at y mater hwn yn Llythyr Cylch Gwaith 2007-08.]

Nod strategol	Gweithred	Canlyniad
Y Fargen i Fyfirwyr	Cynnig Cyngor i'r Cynulliad ar hyrwyddo mwy o symudedd myfirwyr yng nghydestun cynigion ar gyfer cyllido myfirwyr Erasmus yn y dyfodol erbyn chwarter cyntaf 2006-07.	✓ Cyngor a chostiadau wedi eu rhoi i'r Cynulliad ar 17 Chwefror 2006.
Ymchwil Ragorol	Cychwyn ar adolygiad o bolisi ymchwil i baratoi ar gyfer adolygu'n dull o gyllido ymchwil.	✓ Cyflawnwyd. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol fel Cylchlythyr W07/04HE yn Chwefror 2007 a chafwyd ymatebion yn Ebrill. Yr adolygiad i'w gwblhau yn 2007-08
Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas	Gweithio gyda'r Cynghorau Sgiliau Sector a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu sail o dystiolaeth ynghylch y cyfraniad y gallai graddau sylfaen eu gwneud at gyflenwi'r anghenion sgiliau lefel uwch yng Nghymru, gan gynnwys ymchwil i'r farchnad am raddau sylfaen gan fyfirwyr a chyflogwyr fel ei gilydd. Mae'r gwaith hwn i hysbysu cyngor i'r Cynulliad ar gryfhau rôl y sector wrth gefnogi'r agenda sgiliau i'w ddarparu erbyn Rhagfyr 2006.	✓ Cyflawnwyd. Cyngor cychwynnol ar gryfhau rôl y sector wrth gefnogi'r agenda sgiliau wedi ei gyflwyno i'r Cynulliad yn Ionawr 2007. Cytunodd y Cynulliad ar ddyddiad cyflwyno newydd am gyngor ar Raddau Sylfaen ym Mawrth 2007.
Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas	Gweithredu cyngor a roddwyd i'r Cynulliad yn Hydref 2005 (gan gynnwys ymateb y Gweinidog) ar gamau i gryfhau ymhellach rôl datblygu economaidd y sector AU gan gynnwys rôl allweddol wrth wireddu Polisi Gwyddoniaeth newydd y Cynulliad.	Cael ei gymryd ymlaen drwy'r Pwyllgor Trydedd Genhadaeth, sydd wedi ei ailgyfansoddi yng ngoleuni proses uno'r Cynulliad. Yn disgwyl eglurhad ar sut mae gweithredu'r Polisi Gwyddoniaeth.
Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon	Gweithio gyda'r sector i gynhyrchu cynllun ar gyfer ail-gyflunio darpariaeth HCA, gan ymgorffori lleihad disgwyledig mewn niferoedd HCA, i'w gyflwyno i'r Cynulliad yn Nhachwedd 2006.	✓ Cyflawnwyd. Cyflwynwyd argymhellion i'r Gweinidog ar 30 Tachwedd 2006.

Nod strategol	Gweithred	Canlyniad
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Cwblhau trafodaethau gyda'r sector AU ar reoli goblygiadau cyllidol natur arwain-gan-alw cyllid myfyrwyr o'r flwyddyn academaidd 2006/07 ac, os na fydd hi'n bosibl cytuno ar fecanwaith rheoli boddhaol, datblygu trefniadau i adfer cost ehangach o fynd dros dargedau recriwtio myfyrwyr y cytunwyd arnynt. Cynnig cyngor i'r Cynulliad ar y materion hyn erbyn Ebrill 2006.	✓ Cwblhawyd trafodaethau yn gynnar yn haf 2006 ac adroddwyd ar safbwynt terfynol y Cynulliad i'r sector.
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Coethi'r dadansoddiad yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod 2005-06 ar lefelau cyllido cymharol ar AU rhwng Cymru a rhannau eraill y DU, a chyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddarau i'r Cynulliad erbyn Medi 2006.	✓ Cyhoeddwyd y dadansoddiad ar wefan CCAUC.
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Yng ngoleuni adborth o'r Cynulliad ar gynigion a gyflwynwyd yn 2005-06, gweithio gyda'r Cynulliad a'r sector AU ymhellach i goethi'r defnydd strategol ar Ymgeisio'n Uwch a chyllido craidd, ac adrodd i'r Cynulliad erbyn Hydref 2006.	✓ Cyflwynwyd cyngor i'r Gweinidog yn haf 2006. [Cyfeirir at y pwnc hwn hefyd yn Llythyr Cylch Gwaith 2007-08.]
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Cwblhau'r broses o gytuno cynlluniau ar gyfer Llif Incwm Atodol (SIS) 2006/07, a hefyd cytuno ar gynlluniau ffioedd am y cyfnod 2007/08 at 2011/12, ac adrodd ar eu cynnwys terfynol i Lywodraeth y Cynulliad erbyn Hydref 2006.	Nid oedd yr holl Gynlluniau SIS na Chynlluniau Ffioedd wedi eu derbyn na'u cytuno erbyn Hydref 2006. Fodd bynnag, cytunwyd ar yr holl gynlluniau SIS yn 2006-07, ac roedd nifer o sefydliadau wedi methu ag anfon eu Cynlluniau Ffioedd atom tan eu bod wedi cyflwyno Cynlluniau SIS derbyniol.



Nod strategol	Gweithred	Canlyniad
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Adolygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y sector tuag at y targedau Ymgeisio'n Uwch ar gyfer 2010 a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu ychwanegol y dylid ei wneud yn awr ar gyfer unrhyw feysydd ble mae cynnydd yn llai na'r hyn a fynnir gan y targedau hynny. Adrodd i'r Cynulliad ar y materion hyn erbyn Chwefror 2007.	Ei gymryd ymlaen i'w gwblhau yn 2007-08.
Gwneud iddi Weithio: sector AU	Parhau â'r gwaith i gynhyrchu'r sail o dystiolaeth i alluogi'r Cynulliad i ymateb i'r gofynion sy'n codi o weithredu'r fframwaith tâl newydd ar gyfer y sector [i'w gwblhau haf 2007], gan gynnwys parhau i gymryd rhan yn y gwaith trawstorri a wneir gan y Cynulliad ar faterion tâl cyfartal.	Mewn llaw. Tystiolaeth gychwynnol wedi ei chyflwyno i LCC. Tystiolaeth bellach i'w chyflwyno yn haf 2007.
Gwneud iddi Weithio: CCAUC	Yng ngoleuni'r safonau manwl, y cyfarwyddyd cysylltiedig â'r cyngor arfer da i'w gyhoeddi gan y Cynulliad yn hydref 2006, byddwn yn adolygu ein gwasanaethau yn erbyn y safonau craidd ar gyfer 'gwasanaeth cwsmeriaid' ac 'ymwneud â'r cyhoedd' a welir yn Cyflawni'r Cysylltiadau.	Heb gael unrhyw gyngor na chyfarwyddyd.
Gwneud iddi Weithio: CCAUC	Yng ngoleuni'r cyfarwyddyd sydd i ddod gan y Cynulliad ar drefniadau ar gyfer adrodd ffurfiol ar enillion gwerth am arian, mireinio ymhellach y targedau a'r gweithrediadau allweddol a gynhwysir yn ein Cynllun Gweithredu Gwerth am Arian yng nghynllun Gwneud y Cysylltiadau, gan adlewyrchu cyn belled â phosibl y targedau i'r sector y cytunwyd arnynt eisoes o dan Ymgeisio'n Uwch.	✓ Adroddodd sefydliadau ar eu harbedion prynu gwerth am arian ar gyfer 2005-06 ym Mawrth 2007, i alluogi CCAUC i adrodd am gynnydd i'r Cynulliad erbyn Ebrill 2007. Adroddir ar agweddau eraill ar dargedau gaa hefyd.

# Cynnydd tuag at Gyrraedd Targedau Ymgeisio'n Uwch 2000/01 hyd 2005/06 - Mehefin 2007

## Cynnydd tuag at Gyrraedd Targedau Ymgeisio'n Uwch 2000/01 hyd 2005/06 - Mehefin 2007

Yn y targedau a ganlyn, heblaw am y targedau ar gyfer gorbenion a 'spinout', mae data a ddangosir hyd at 2005/06 yn ddata gwirioneddol o gofmodion yr AYAU/HESA ar gyfer SAUau y DU neu o LLWR ar gyfer SABau y DU. Yn achos y targed ar gyfer gorbenion, mae data hyd at 2004/05 yn ddata gwirioneddol o ystadegau'r AYAU. Yn achos y targed ar gyfer 'spinout', mae data hyd at 2005/06 yn ddata gwirioneddol o'r arolwg HEBCl. Ym Mai 2007, newidwyd y targed cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth y Cynulliad i gynnwys myfyrwyr o Gymru yn unig. Newidwyd hefyd y targed ar gyfer Cymru fel cyrchfan dewis cyntaf i 70%.

### Ehangu Mynediad

Targed - Canran yr holl israddetigion newydd o Gymru ar gyrsiâu AU mewn SAUau neu SABau yn y DU sy'n byw mewn ardal Cymunedau'n Gyntaf greiddiol Cymru i godi o 8.9% yn 2000/01 i 11.4% erbyn 2010/11.

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
SAUau Cymru	2,733	26,848	3,036	27,857	3,408	28,903	3,401	29,577	3,448	29,687	3,325	28,937
SAUau a SABau y DU*	3,484	39,056	4,053	42,181	4,364	43,077	4,450	44,300	4,351	42,589	4,244	42,912
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	2.0% - 15.8%		2.2% - 16.4%		2.6% - 17.4%		4.2% - 16.0%		3.3% - 16.0%		2.8% - 15.6%	

- Mae'r ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cyfateb i'r 100 ward etholiadol fwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddiffiad Lluosol y Cynulliad. Myfyrwyr sy'n byw o fewn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yw'r rheiny y mae eu codau post cartref o fewn un o'r ardaloedd hyn.
  - Mae'r canran o fyfyrwyr sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf wedi'i gyfrifo ar sail myfyrwyr o Gymru yn y sefydliad y mae eu wardiau'n hysbys.
  - Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng Nghymru.
  - Cynhwysir pob modd astudio
  - Yn 2003/04, roedd gan un sefydliad gyfran fawr o godau post nad oedd modd eu mapio (16%) ac mae'n bosibl bod hyn wedi effeithio ar y ffigur ar gyfer y canran o fyfyrwyr sy'n byw yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Cymru.
- \*Mae ffigurau'r DU ar gyfer 2001/02 a 2002/03 yn cynnwys data ar gyfer SABau y DU o 2000/01 fel amcangyfrif. Mae'r ffigurau a gyflwynir yma yn cynnwys data gwirioneddol SABau y DU ar gyfer y cyfnod rhwng 2000/01 a 2005/06.

### Cyfrwng Cymraeg (targed cyfredol)

Targed - Y gyfran o fyfyrwyr yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 5.3% yn 2000/01 i 7% erbyn 2010/11.

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
SAUau Cymru	3,473	63,681	3,205	67,792	3,412	71,301	3,523	72,315	3,404	74,118	3,625	73,539
AUau a SABau Cymru	3,495	65,800	3,246	69,993	3,412	72,436	3,540	73,415	3,421	75,083	3,647	74,751
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	0.0% - 38.0%		0.0% - 27.7%		0.0% - 22.3%		0.0% - 33.7%		0.0% - 41.3%		0.3% - 38.6%	

- Cyfrifir myfyrwyr fel rhai sy'n dilyn rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt wedi'u cofnodi fel myfyrwyr sy'n cymryd modiwl sydd ar gael yn gyfran gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes gan unrhyw fodiwlau y maent hwy'n eu cymryd ganran o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n fwy na sero. Cynhwysir gyrsiâu ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.
- Cynhwysir pob modd astudio.

### Cyfrwng Cymraeg (targed blaenorol)

Targed - Y gyfran o fyfyrwyr yn SAUau a SABau Cymru sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs AU drwy gyfrwng y Gymraeg i godi o 3.4% yn 2000/01 i 7% erbyn 2010/11.

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
SAUau Cymru	3,786	108,427	3,523	112,960	3,819	119,789	3,877	122,859	3,735	127,715	3,921	130,356
SAUau a SABau Cymru	3,808	110,546	3,564	115,161	3,819	120,924	3,894	123,959	3,752	128,680	3,943	131,568
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):		0.0% - 18.8%		0.0% - 27.1%		0.0% - 21.7%		0.0% - 31.4%		0.0% - 38.2%		0.3% - 35.3%

- Cyfrifir myfyrwyr fel rhai sy'n dilyn rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt wedi'u cofnodi fel myfyrwyr sy'n cymryd modiwl sydd ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg neu os oes gan unrhyw fodiwlau y maent hwy'n eu cymryd ganran o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n fwy na sero. Cynhwysir cyrsiau ar yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg.
- Cynhwysir pob modd astudio.

### Cymru fel Cychfan Dewis Cyntaf (targed cyfredol)

Targed - Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n astudio yn SAUau yng Nghymru i godi o 60.1% yn 2000/01 i 70% erbyn 2010/11.

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru yn SAUau Cymru:

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
SAUau Cymru	31,772	67,742	33,729	68,669	34,917	71,506	35,816	73,695	36,028	75,462	36,053	76,520
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):		29.5% - 84.7%		30.8% - 85.8%		28.1% - 87.3%		27.9% - 86.6%		27.5% - 85.0%		27.7% - 82.8%

Y gyfran o fyfyrwyr AU amser-llawn o Gymru wedi'u cofrestru yn SAUau y DU sy'n astudio mewn SAUau yng Nghymru:

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
Cyfanswm SAUau y DU	31,772	52,882	33,729	54,442	34,917	55,747	35,816	57,204	36,028	57,165	36,053	57,145
		60.1%		62.0%		62.6%		62.6%		63.0%		63.1%

- Cymerir bod myfyrwyr yn dod o Gymru os yw eu côd post cartref yng Nghymru.
- Cynhwysir y moddau astudio amser-llawn a rhyngosod.

## Myfyrwyr Tramor

Targed – y newid canrannol yn nifer y myfyrwyr tramor sy'n mynychu cysiau AU yn SAUau Cymru i fod yn hafal â, neu'n fwy na, y ffigur cyfartalog ar gyfer SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a De-ddwyrain Lloegr) erbyn 2010/11.

	2000/01		2001/02		2002/03		2003/04		2004/05		2005/06	
	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran	Nifer	Cyfanswm Canran
SAUau Cymru	5,322	109,765 4.8%	5,878	114,387 5.1%	7,250	121,156 6.0%	8,345	124,221 6.7%	9,644	129,231 7.5%	10,779	131,842 8.2%
SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain)	98,381	1,366,391 7.2%	108,496	1,430,036 7.6%	131,358	1,489,600 8.8%	149,805	1,548,260 9.7%	154,169	1,576,133 9.8%	159,199	1,610,800 9.9%
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):		0.5% – 9.5%		0.6% – 10.1%		1.2% – 11.2%		0.2% – 11.6%		1.2% – 11.9%		1.6% – 12.3%

### Newid blywyddyn ar flwyddyn

	2000/01 – 2001/02		2001/02 – 2002/03		2002/03 – 2003/04		2003/04 – 2004/05		2004/05 – 2005/06	
Cyfanswm SAUau Cymru	10.4%	23.3%	15.1%	15.6%	11.8%					
Cyfanswm SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain)	10.3%	21.1%	14.0%	2.9%	3.3%					
Isaf/uchaf (SAUau Cymru):	-7.7% – 97.6%	2.8% – 93.8%	-94.2% – 64.1%	-5.2% – 875.0%	-18.8% – 143.6%					

- Cymerir bod myfyrwyr yn fyfyrwyr tramor os nad ydynt yn byw yn yr UE, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw; mae hyn yn cynnwys myfyrwyr cyfnewid.
- Cynhwysir pob modd astudio.

## Lleihau Gorbenion

Targed – Y gost weinyddu ganolrif am bob myfyrwr CALLI ar gyfer SAUau Cymru i ostwng o lefel y 45ain canradd ar gyfer costau gweinyddu am bob myfyrwr CALLI yn SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) i'r 40ain canradd erbyn 2007/08 a'r 25ain canradd erbyn 2010/11.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05
Canolrif SAUau Cymru (£)	2,476	2,642	2,855	3,157	3,264
Canran o SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) sydd â chostau gweinyddu	45%	44%	46%	51%	46%
Canolrif SAUau y DU (heb gynnwys Llundain a'r De-ddwyrain) (£)	2,659	2,802	2,888	3,140	3,358
Isaf/uchaf (SAUau Cymru) (£)	1,483 – 5,419	1,603 – 5,801	1,760 – 6,663	1,635 – 7,354	1,876 – 5,665

- Mae costau gweinyddu yn cynnwys costau adrannau academaidd (heb gynnwys costau staff academaidd), gwariant ar wasanaethu academaidd a gwariant ar wasanaethu gweinyddu a chanolog (nid ydynt yn cynnwys gwariant ar adeiladau). Mae'r cyfrifiad CALLI yn cynnwys pob myfyrwr AU ac AB a phob myfyrwr nad yw ei gwrs yn arwain at gredyd (ag eithrio rhai myfyrwyr Cymraeg i Oedolion, lle nad oes data CALLI ar gael rhwng 2000/01 a 2004/05).
- Cymerir y data o ystadegau rheoli addysg uwch ar lefel y sefydliad a gyhoeddir ar CD bob blwyddyn gan yr AYAU.
- Nid yw data'r AYAU ar gyfer Prifysgol Caerdydd a CMPC wedi cael eu cyfuno yn y tabl hwn rhwng 2000/01 a 2003/04.

### Incwm o Ymchwil

Targed (a) - Y ganran o gyllid y Cyngorau Ymchwil a ddenir gan SAUau Cymru i godi o 3.3% i 4.5%.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfanswm SAUau Cymru	22,915,000	27,077,000	27,856,000	28,657,000	28,660,000	34,465,000
Cyfanswm y DU	695,065,000	805,172,000	819,804,000	832,981,000	926,145,000	1,073,233,000
Cymru fel % o'r DU	3.3%	3.4%	3.4%	3.4%	3.1%	3.2%

- Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.

Targed (b) - Cynnydd o 60% erbyn 2007/08 a 100% erbyn 2010/11 ar y ffigur man cychwyn o £55.6 miliwn yn yr incwm ymchwil o ffynonellau ar wahân i'r Cyngorau Ymchwil.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfanswm SAUau Cymru	55,645,000	60,663,000	67,495,000	67,943,000	76,751,000	86,717,000
Cynnydd fel % o'r ffigur man cychwyn		9.0%	21.3%	22.1%	37.9%	55.8%

- Ni chynhwyswyd data sy'n ymwneud â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd yn y ffigurau hyn.

### Spinout

Targed - Y nifer o gwmnïau proffidiol sy'n deillio o SAUau yng Nghymru i godi o 21 i 42.

	2000/01	2001/02	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfanswm SAUau Cymru	25	31	14*	17	15	26
Isaf/uchaf (SAUau Cymru)	0/7	0/7	0/4	0/5	0/5	0/6

- Mae'r data yn dangos y cwmnïau deilliedig newydd a ffrifwyd mewn gwirionedd ac y rhagweir eu ffurfio bob blwyddyn academaidd.
- \* Cred swyddogion fod ymwybyddiaeth y sector o ddyfodiad Deddf Ariannol 2003 yn rhannol gyfrifol am y gostyngiad yn 02/03, gan iddi dynnu'r cymhellad i sefydliadau academaidd fynd ati i sefydlu cwmnïau deilliedig. (Mae HMT yn ymwybodol o hyn ac mae'n ystyried y sefyllfa.)

# Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon am y flwyddyn yn diweddu  
31 Mawrth 2007

## ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

### CEFNDIR STATUDOL

Cafodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ei sefydlu o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Ar 7 Mai 1999, cafodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei greu a throsglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Swyddfa Gymreig iddo ar 1 Gorffennaf 1999. Yn sgil hyn, daeth CCAUC yn gorff a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru gynt fel y'i sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998). O ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae CCAUC bellach yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â'r cyfarwyddyd a wnaed gan Weinidogion Cymreig gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Gellir cael copi o'r cyfarwyddyd gan y Cyngor.

Paratoir y cyfrifon yn unol â gofynion y Deddfau Cwmnïau a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol.

Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys pedwerydd cyfnod adrodd ar ddeg y Cyngor, ac maent yn adlewyrchu datblygiad parhaus systemau a pholisïau'r Cyngor.

### CYFRIFOLDEBAU CYNGOR CYLLIDO ADDYSG UWCH CYMRU

Mae CCAUC yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac eraill, i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch Cymru a

chysiau addysg uwch penodedig a ddarperir yn sefydliadau'r awdurdodau lleol neu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, ac am gyflawni'r swyddogaethau atodol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg 1994.

### GWAHANU ODDI WRTH GYNGOR CENEDLAETHOL CYMRU DROS ADDYSG A HYFFORDDIANT

O 1 Ebrill 2001, rhannodd CCAUC nifer o wasanaethau â Chyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (CCCAH). Ar 14 Gorffennaf 2004, cyhoeddodd y Prif Weinidog y penderfyniad i ymgorffori gwaith CCCAH, ond nid CCAUC, yn uniongyrchol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru o 1 Ebrill 2006. O ganlyniad, mae'r ffigurau cymharol yn y cyfrifon hyn ar gyfer 2005-06 yn cynrychioli'r flwyddyn olaf cyn y gwahanu ffurfiol oddi wrth CCCAH.

### CYFRANIAD Y STAFF

Mae cyfarfodydd a seminarau staff rheolaidd yn sicrhau cyfathrebu da o fewn y sefydliad ac yn rhoi cyfle i unigolion gyfrannu at weithrediad y Cyngor. Bydd Cyngor Gwaith, lle gall cynrychiolwyr godi materion ar ran y staff, yn cyfarfod yn rheolaidd.

Ar 26 Ionawr 2000, dyfarnwyd statws Buddsoddwyr mewn Pobl i'r Cyngor. Cafodd y dyfarniad hwn ei ailasesu ym mis Hydref 2006 a darganfuwyd bod y Cyngor yn parhau i gwrdd â'r safon Buddsoddwyr mewn Pobl. Mae achrediad CCAUC ar waith tan fis Hydref 2009.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei Bolisi Cyfle Cyfartal i sicrhau y caiff pob aelod staff ei drin yn deg, heb ystyried rhyw, oedran, statws priodasol, anabledd, na tharddiad hiliol neu ethnig.

Seilir polisi recriwtio'r Cyngor ar allu'r ymgeisydd i wneud y gwaith. Rhoddir ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am swyddi gan bobl anabl os yw'r medrau a'r galluoedd priodol ganddynt i gyflawni'r dyletswyddau. Pe bai aelod o'r staff yn dod yn anabl, byddai'r Cyngor yn gwneud pob ymdrech i gadw'r aelod o staff yn ei swydd ac i ddarparu cyfleoedd digonol ar gyfer ailhyfforddiant a datblygiad gyrfa.

### **POLISI TALU CREDYDWYR**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n llawn i dalu biliau ei gyflenwyr yn brydlon ac mae'n cefnogi Cod Talu'n Brydlon Cydffederasiwn Diwydiant Prydain. Mae dadansoddiad o berfformiad talu y Cyngor yn 2006-07 yn dangos i 97.8 y cant o'r anfonebau (2005-2006: 95.3%) gael eu talu yn unol ag amodau'r contract neu, os nad oedd amodau, o fewn 30 diwrnod ar ôl i anfoneb ddilys gael ei chyflwyno.

### **ARCHWILWYR**

Caiff cyfrifon y Cyngor eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn unol â gofynion paragraff 16(1) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Caiff ffioedd archwilio allanol mewn perthynas â hyn a gwaith archwilio arall eu dangos yn Nodiadau 4 a 7 i'r cyfrifon hyn.

Hyd y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol ohoni; ac mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd yr holl gamau gofynnol i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

### **AELODAU'R CYNGOR**

Bu'r bobl ganlynol yn gwasanaethu fel aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn a gwmpesir gan yr adroddiad:

#### **Cadeirydd**

**Yr Athro Syr Roger Williams**

*(hefyd yn aelod o 1 ac 11 - gweler isod)  
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Reading*

#### **Aelodau**

**Yr Athro Philip Gummett**

*(hefyd yn aelod o 2, 3, 10 ac 11 - gweler isod)  
Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru*

**Mrs Wendy Heppell**

*(ymddiswyddodd 31 Awst 2006) (hefyd yn aelod o 4, 5, 11 a 12 hyd 31 Awst 2006 - gweler isod)  
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau a Gyllidir gan y Cyhoedd, Business West*

**Dr Geoffrey P Thomas**

*(hefyd yn aelod o 8 - gweler isod)  
Pennaeth yr Adran Addysg Barhaus, Prifysgol Rhydychen a Llywydd Coleg Kellogg*

**Mr R P V (Tim) Rees**

*(hefyd yn aelod o 4,6 a 8 - gweler isod)  
Cyfrifydd Siartredig; cyn Gadeirydd y Llywodraethwyr, Prifysgol Morgannwg*

**Yr Athro Syr Brian Smith**

*(hefyd yn aelod o 11 a 13 - gweler isod)  
Cyn Is-Ganghellor, Prifysgol Caerdydd*

**Dr Len Arthur**

*(hefyd yn aelod o 5 a 9 - gweler isod)  
Darlithydd yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd*



**Yr Athro D Garel Rhys OBE**

*(hefyd yn aelod o 6 a 8 - gweler isod)*  
Cyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil  
Diwydiant Modurol yn Ysgol Fusnes Prifysgol  
Caerdydd

**Mrs Tina Stephens**

*(hefyd yn aelod o 1, 5 a 6 - gweler isod)*  
Arbenigwr mewn rheolaeth a datblygiad staff;  
Prif Arholwr gyda'r Sefydliad Siartredig Personél  
a Datblygiad

**Yr Athro Nigel Stott CBE**

*(hefyd yn aelod o 4 - gweler isod)*  
Athro Emeritws, Coleg Meddygaeth Cymru,  
Prifysgol Caerdydd

**Yr Athro Mari Lloyd-Williams**

*(penodwyd 1 Ionawr 2007)*  
Cyfarwyddwr Astudiaethau Cymunedol, Prifysgol  
Lerpwl

**Mr Kenneth Richards**

*(penodwyd 1 Ionawr 2007)*  
Cyn Uwch Ddarlithydd mewn Trethiant a Chyllid,  
Prifysgol Cymru, Aberystwyth

**Aseswr a benodwyd gan Weinidogion Cymreig**

**Dr David Bacon**

*Pennaeth yr Is-adran Addysg Uwch, Adran  
Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg,  
Llywodraeth Cynulliad Cymru*

*1 Pwyllgor Tâl; 2 Pwyllgor Ehangu Mynediad; 3 Pwyllgor Asesu Ansawdd;  
4 Pwyllgor Archwilio a Risg; 5 Gweithgor Llywodraeth Gorfforaethol; 6  
Pwyllgorau Adnoddau Dynol; 7 Grŵp Llywio Strategaeth Cyfrwng  
Cymraeg; 8 Panel Ailgyflunio; 9 Pwyllgor Trydedd Genhadaeth; 10  
Pwyllgor Dysgu ac Addysgu; 11 Panel Asesu'r Gronfa Datblygu Strategol;  
12 Panel Achredu HCA; 13 Grŵp Ymgynghori ar Ymchwil.*

Gellir archwilio'r gofrestr o fuddiannau'r  
aelodau drwy wneud cais i Glerc y Cyngor yn  
swyddfeydd y Cyngor yn Llanisien.

## SYLWEBAETH Y RHEOLWYR

### Datganiad o Genhadaeth a Nodau Strategol

Cenhadaeth y Cyngor yw hybu addysg uwch o  
safon ryngwladol yng Nghymru, er lles  
unigolion, cymdeithas ac economi Cymru ac y  
tu hwnt.

Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor yn  
defnyddio cyllid a dderbynnir gan Lywodraeth  
Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r  
radd flaenaf;
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i  
ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru; a
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon  
achrededig o safon uchel ar hyd a lled  
Cymru.

Ym mhopeth a wnawn, rydym wedi ymrwymo i  
gynnal gwerthoedd sylfaenol parhaol addysg  
uwch, sef:

### Ysgolheictod a Dysg

Cynnal diwylliant sy'n gofyn am feddwl  
disgybledig a gonestrwydd deallusol, yn annog  
chwilfrydedd, yn herio syniadau sefydledig ac yn  
esgor ar syniadau newydd.

### Cyfrifoldeb Dinesig

Chwarae rhan bwysig mewn hybu dinasyddiaeth  
dda a siapio cymdeithas gynhwysol  
ddemocrataidd wedi'i seilio ar barch at  
hawliau'r unigolyn a chyfrifoldeb tuag at  
gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

### Dysgu Gydol Oes

Galluogi unigolion i feithrin eu galluoedd hyd  
eithaf eu potensial drwy gydol eu bywydau.

### Cynaliadwyedd

Gweithio i sicrhau bod y sector yn datblygu'n strwythurol mewn ffordd sy'n arwain at gyflawni'r nodau strategol, a'i fod yn parhau'n gystadleuol yn rhyngwladol.

Nodau strategol y Cyngor wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau yw:

- i) **Ymgynraedd yn Ehangach:** sicrhau cyfranogiad a mynediad ehangach er mwyn hybu cymdeithas gynhwysol a gwella sgiliau er lles yr economi;
- ii) **Y 'Fargen i Fyfyrrwyr':** sicrhau dysgu a chymorth cysylltiedig o'r safon uchaf;
- iii) **Ymchwil Ragorol:** sicrhau gwell perfformiad ymchwil a fydd yn sylfaen i'r economi gwybodaeth ac adfywiad diwylliannol a chymdeithasol;
- iv) **Bod o Fudd i'r Economi a Chymdeithas:** sicrhau perthnasoedd mwy cynhyrchiol rhwng sefydliadau addysg uwch a'r sectorau cyhoeddus a phreifat, asiantaethau eraill a chymunedau lleol;
- v) **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon:** cynhyrchu athrawon newydd o ansawdd uchel;
- vi) **Gwneud iddi Weithio: Y Sector Addysg Uwch yng Nghymru:** pwyslais cryf ar ailgyflunio, cydweithio, a mesurau eraill i gynnal perfformiad gwell gan sefydliadau unigol a'r gyfundrefn addysg uwch yn ei chyfarwydd; a
- vii) **Gwneud iddi Weithio: CCAUC:** bod yn gorff sector cyhoeddus effeithiol drwy: i) fod â'r gallu a'r isadeiledd sy'n ei gwneud yn bosibl i ni weithio'n effeithiol yn fewnol a chyda'n holl randdeiliaid a phartneriaid (yn

enwedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector AU yng Nghymru); a (ii) bod yn gyflogwr y mae pobl yn ei ddewis.

### Llythyr Cylch Gwaith

Ym mis Chwefror 2006, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes y llythyr cylch gwaith blynyddol i'r Cyngor. Mae hyn yn nodi arweiniad Llywodraeth y Cynulliad i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn, a'r blaenoriaethau a'r allbynnau y mae'r Gweinidog yn disgwyl i'r Cyngor roi sylw iddynt ac y dylid eu hadlewyrchu yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor.

### Cynllun Gweithredol

O'r 46 o weithredoedd a nodwyd yng Nghynllun Gweithredol 2006-07, cyflawnwyd 40 ohonynt, cyflawnwyd pedair ohonynt yn rhannol a chariwyd yr elfennau nas cyflawnwyd ymlaen i Gynllun Gweithredol 2007-08, a chafodd dwy weithred eu cario ymlaen yn gyfan gwbl.

Dyma rai o'r gweithredoedd allweddol yn y Cynllun Gweithredol:

- *Ymgymryd â gwerthusiad llawn o'r cynllun Ymgynraedd yn Ehangach ac adolygu ein polisi ehangu mynediad, ac adrodd i'r Cynulliad erbyn mis Ionawr 2007.* Cyflwynwyd adroddiad ym mis Ionawr 2007.
- *Rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y camau pellach y gallai fod angen eu cymryd i gefnogi'r paratodau ar gyfer yr Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) nesaf, ac i gryfhau gallu ymchwil yn fwy cyffredinol, erbyn mis Ionawr 2007.* Cyflwynwyd cyngor ar gyllid Ymgeisio'n Uwch ychwanegol ar gyfer YAY 2008 a dyrannwyd £5m yn sgil hyn.
- *Adolygu canlyniadau cylch cyllido trydedd genhadaeth tair-blynedd cyntaf y Cyngor a*

*addasu'r fethodoleg gyllido yn barod ar gyfer y cylch cyllido tair-blynedd nesaf a fydd yn dechrau yn 2007/08. Cyflawnwyd hyn a rhennir y dyraniadau diwygiedig gyda'r sector yn 2007/08.*

- *Gweithio gyda'r sector i gynhyrchu cynllun ar gyfer ailgyflunio darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), gan ymgorffori gostyngiadau disgwylidig mewn niferoedd HCA, i'w gyflwyno i'r Cynulliad ym mis Tachwedd 2006. Cyflawnwyd hyn, a chyflwynwyd yr argymhellion ar 30 Tachwedd 2006.*
- *Mireinio'r dadansoddiad a wnaed yn 2005-06 o lefelau cyllido cymharol ar gyfer AU yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU, a chyflwyno adroddiad wedi'i ddiweddarau i'r Cynulliad erbyn mis Medi 2006. Cyflawnwyd hyn.*

Roedd y gweithredoedd hyn yn ychwanegol at y ffaith bod y Cyngor wedi cyflawni'n llwyddiannus ei weithgareddau rheolaidd, gan gynnwys rhoi'r dyraniadau grant rheolaidd, gwneud taliadau prydlon i sefydliadau, a dadansoddi a chynnig adborth ar gynlluniau strategol y sefydliadau.

### Adolygiad ariannol

Mae cyfrifon eleni'n adlewyrchu newid yn y ffordd y rhoddir cyfrif am grantiau refeniw a chymorth grant, ynghyd â grantiau cyfalaf cyffredinol, yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ar gyfer 2006-07. Mae gofyn i daliadau o barti rheoli (Llywodraeth Cynulliad Cymru) gael eu hystyried yn gyllid a'u credydu i'r gronfa gyffredinol yn y fantolen yn hytrach nag fel incwm gweithredol am y flwyddyn, neu fel symudiad ar gronfa grant y llywodraeth. Dangosir yn nodiadau 2 a 15 yr effaith fanwl ar ffigurau cymharol 2005-06 fel addasiadau blwyddyn flaenorol.

O ganlyniad, y costau gweithredol net am y flwyddyn oedd £429.2 filiwn (costau

gweithredol net 2005-06: £388 miliwn). Gwerth y gronfa gyffredinol gronnu ar 31 Mawrth 2007, ar ôl credydu cyllid cymorth grant o £433.5 miliwn, oedd £11.8 miliwn (2005-06: £7.2 filiwn). Cynllunnir gwariant y Cyngor ar sail y cyllid sydd ar gael iddo trwy gymorth grant blynyddol a dderbynnir ac incwm arall a gweddillion y gronfa gyffredinol. Bydd y datganiadau ariannol bob amser yn cofnodi canlyniad costau gweithredol net ar gyfer y flwyddyn o ganlyniad i gredydu cyllid i'r gronfa gyffredinol yn y fantolen. Cynllunnir gweithgareddau'r Cyngor hefyd i sicrhau bod arian parod a gaiff ei gario ymlaen ganddo'n parhau o fewn y ddau y cant o gyfanswm cymorth grant ar gyfer y flwyddyn a ganiateir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gwariwyd cyfanswm o £43,000 ar asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn.

## ADRODDIAD AR DÂL

### Polisi talu

Pennir tâl y Cadeirydd, Aelodau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae tâl y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor yn dod o fewn Cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Talu Cadeiryddion ac Aelodau CCNCau a Chyrff GIG, a gyflwynwyd ar 1 Ebrill 2004.

Pennir tâl y Prif Weithredwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gall gynnwys bonws ar sail perfformiad o hyd at 10% yn seiliedig ar asesu targedau perfformiad a bennir gan Gadeirydd y Cyngor.

Pennir tâl y cyfarwyddwr yn unol â system cyflog a graddio gymeradwy y Cyngor, sy'n berthnasol i'r holl staff a benodir. Caiff lefelau tâl cyffredinol y Cyngor a'i gylch gwaith cyflog blynyddol, sy'n berthnasol i'r holl staff gan gynnwys y cyfarwyddwr corfforaethol, eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid yw bonws penodol yn daladwy i'r cyfarwyddwr, er y gellir gwneud dyfarniad perfformiad blynyddol sy'n gyfwerth â chynnydd un cam ar fandiau cyflog yn unol â'r broses gwerthuso perfformiad sy'n berthnasol i'r holl staff a benodir.

### Pwyllgor tâl

Mae gan CCAUC Bwyllgor Tâl sy'n gyfrifol am

adolygu perfformiad y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr yn flynyddol. Mae gan y pwyllgor, a fydd ar unrhyw adeg yn cynnwys o leiaf dau aelod, y bydd y ddau ohonynt yn Aelodau o'r Cyngor, awdurdod dirprwyedig i ystyried materion sy'n effeithio ar dâl a bonws perfformiad y Prif Weithredwr ac i wneud argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â hynny.

### Datguddiadau cyflog a phensiwn \*

Swydd	Enw	Cyflog £	Cynnydd real mewn Pensiwn a Lwmp-swm £'000	Pensiwn ar 31/03/07 a Lwmp-swm £'000	GTCA ar 01/04/06 (Ail-ddatganwyd) £'000	GTCA ar 31/03/07 £'000	Cynnydd real mewn GTCA fel y cyllidwyd gan y cyflogwr £'000
Cadeirydd	Yr Athro Syr Roger Williams	£15,168 (2005-06 14,760)	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B	Dd/B
Prif Weithredwr	Yr Athro Philip Gummett	£107,053 (2005-06 97,375)	pensiwn 0 - 2.5 a lwmp-swm 2.5 - 5	pensiwn 5 - 10 a lwmp-swm 20 - 25	163	199	29
Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Richard Hirst	£81,787 (2005-06 76,064)	pensiwn 0 - 2.5	pensiwn 35 - 40	622	674	30

Mae Richard Hirst yn aelod o'r cynllun buddion diffiniedig Premium, rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Nid yw buddion y cynllun yn cynnwys talu lwmp-swm awtomatig ar ymddeoliad (gweler hefyd 'Pensiynau' isod).

Mae gan y Prif Weithredwr gytundeb parhaol ac mae'n aelod cyffredin o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Nid yw'r Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac ni dderbyniant unrhyw fuddion pensiwn y telir

amdanynt gan CCAUC. Bydd Aelodau'r Cyngor (heb gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr) yn derbyn cyflog amhensiynadwy o £4,752 y flwyddyn.

Cyflogau crynswth yw'r holl gyflogau a ddangosir, gan na dderbyniodd Aelodau'r Cyngor na'r staff uwch unrhyw daliadau eraill na buddion ar ffurf nwyddau, heblaw am y rheiny a ddatguddir isod.

\* Gall y wybodaeth hon gael ei harchwilio.

## Pensiynau

Darperir buddion pensiwn drwy'r trefniadau Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). O 1 Hydref 2002, gall gweision sifil fod mewn un o dri chynllun buddion diffiniedig 'cyflog terfynol' statudol-seiliedig (Classic, Premium a Classic Plus). Mae'r cynlluniau heb eu cyllido a thelir am gost buddion drwy arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau Classic, Premium a Classic Plus eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Adwerthu. Gall staff newydd ar ôl 1 Hydref 2002 ddewis rhwng aelodaeth o gynllun Premium neu ymuno â threfniant 'pensiwn a brynir' o ansawdd da wedi'i seilio ar gynllun cyfranddeiliaid gyda chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Gosodir cyfraniadau staff ar gyfradd o 1.5% o enillion pensiynadwy ar gyfer Classic a 3.5% ar gyfer Premium a Classic Plus. Mae buddion y cynllun Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80 o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, telir lwmp-swm sy'n gyferwerth â thair blynedd o bensiwn ar ymddeoliad. Yn achos y cynllun Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60 o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun Classic, nid oes lwmp-swm awtomatig (ond gall aelodau ildio (cymudo) peth o'u pensiwn i ddarparu lwmp-swm). Amrywiad ar y cynllun Premium yw Classic Plus i bob pwrpas, ond gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel ar gyfer y cynllun Classic.

Trefniant tebyg i bensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% (gan ddibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i bensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan yr aelod staff o ddetholiad o gynhyrchion cymeradwy. Nid oes rhaid i'r aelod staff gyfrannu, ond os

yw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud taliadau cyfatebol hyd at 3% ar y mwyaf o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd y cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.8% arall o gyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd afiechyd).

Y pensiwn croniedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn wrth gyrraedd 60 oed neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes yn 60 oed.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y trefniadau PGS ar y wefan

[www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

## Gwerthoedd Trosglwyddo Cyferwerth Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyferwerth Arian (GTCA) yw gwerth cyfalafedig y buddion cynllun pensiwn, wedi'i asesu gan actiwari, a gronnwyd gan aelod neilltuol ar adeg neilltuol mewn amser. Y buddion a brisir yw buddion croniedig yr aelod ac unrhyw bensiwn sy'n daladwy o'r cynllun i briod. Mae GTCA yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn neu drefniant pensiwn arall pan yw'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn o'r cychwyn cyntaf, nid yn unig â'i wasanaeth mewn swydd uwch y mae datguddio yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau GTCA ac, o 2003-04, y manylion pensiwn eraill, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i'r trefniadau PGS ac y mae'r Bleidlais Gwasanaeth Sifil wedi derbyn taliad trosglwyddo ar ei gyfer sy'n gymesur â'r



ymrwymiaidau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo. Maent hwy hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir y GTCA o fewn y canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadrn yr Actiwariaid.

### Cynnydd real mewn GTCA

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCA a gyllidir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn

cronedig o ganlyniad i chwyddiant, a chyfraniadau a delir gan yr aelod staff (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



Yr Athro Philip Gummett  
Prif Weithredwr a  
Swyddog Cyfrifo  
11 Gorffennaf 2007

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan baragraff 16(2) o atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae gofyn i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Weinidogion Cymreig, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronadol a rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ac o'i incwm a gwariant, enillion a cholledion cydnabyddedig, a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae gofyn i'r Cyngor gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac, yn arbennig, i:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddyd ar gyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymreig, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datguddio perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifo addas yn gyson;
- rhoi barnau ac amcangyfrifon rhesymol;

- nodi a ddilynwyd y safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodir yn *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth*, a datguddio ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bo'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo dros y Gweinidogion Cymreig wedi dynodi Prif Weithredwr Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn Swyddog Cyfrifo. Eglurir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros sicrhau defnydd priodol a chywir o'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano a thros gadw cofnodion addas a diogelu asedau'r Cyngor, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo.

# Datganiad ar Reolaeth Fewnol

## Hyd a lled fy nghyfrifoldeb

1 Fel Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'r Cyngor gyflawni ei bolisiau, nodau ac amcanion tra'n diogelu'r arian cyhoeddus ac asedau eraill yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuir i mi yn Government Accounting. Eglurir fy rôl a'm cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo CCAUC yn y memorandwm, *The Responsibilities of an ASPB Accounting Officer*. Byddaf hefyd yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda swyddogion yn Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cynulliad Cymru lle yr adolygir y blaenoriaethau ar gyfer CCAUC a'r risgiau allweddol sy'n wynebu'r corff.

## Pwrpas y system rheolaeth fewnol

2 Lluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y perygl o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, ni all roi ond sicrhad rhesymol ac nid sicrhad absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i ddarganfod a blaenoriaethu'r prif risgiau i gyflawni nodau, amcanion a pholisiau CCAUC, i werthuso pa mor debygol ydyw y gwireddir y risgiau hyn a'r effaith pe caent eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol yn ei lle yn CCAUC am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2007 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd y cyfrifon ac mae'n cyd-fynd ag Arweiniad y Trysorlys.

## Y gallu i ymdrin â risg

3 Sefydlwyd y prosesau canlynol i reoli risg o fewn CCAUC:

a) adolygir y gofrestr risgiau corfforaethol ym

mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg a bob chwarter gan y Cyngor;

- b) mae'r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys holl uwch reolwyr y sefydliad, yn adolygu ac yn diweddarau'r gofrestr risgiau corfforaethol bob tri mis cyn iddi fynd gerbron y Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor;
- c) mae aelodau unigol y Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am reoli'r risgiau corfforaethol allweddol sy'n codi o'u meysydd cyfrifoldeb ac am asesu a rheoli'r risgiau gweithredol sy'n codi yn eu meysydd; a
- d) briffiwyd yr holl uwch reolwyr ar Bolisi a Chanllawiau Rheoli Risg y Cyngor ac maent hwy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg yn unigol ac fel penaethiaid timau.

## Y fframwaith risg a rheolaeth

4 Mae elfennau allweddol strategaeth rheoli risg CCAUC fel a ganlyn:

- a) sefydlir amcanion CCAUC drwy baratoi ei Strategaethau Corfforaethol a'i Gynlluniau Gweithredol a gymeradwyir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- b) mae gan CCAUC is-adran Sicrhau Risg sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC ac sydd ar gael i roi cyngor ac arweiniad i grwpiau o staff a rheolwyr unigol;
- c) blaenoriaethir risgiau yn ôl eu tebygolrwydd a'u heffaith a nodir camau i'w rheoli sy'n gymesur â maint y risg; a
- d) mae'r Cyngor, a gynghorir gennyf i fel Swyddog Cyfrifo a chan y Pwyllgor Archwilio a Risg drwy'r ystyriaeth reolaidd a rydd i'r gofrestr risgiau, yn penderfynu i ba raddau y dylid mentro.



## Adolygu effeithiolrwydd

5 Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a rheolwyr gweithredol o fewn CCAUC sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wneir gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi derbyn cyngor ar oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ac mae cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau gwelliannau parhaus i'r system yn ei le.

6 Sefydlwyd y prosesau a ganlyn i adolygu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol CCAUC

- a) Mae gwasanaeth archwilio mewnol CCAUC yn gweithredu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Llywodraeth; seilir cynlluniau archwilio ar asesiad o risg wedi'i gysylltu â chofrestr risgiau'r corff cyfan. Mae'r Pennaeth Sicrhau Risg yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaeth a llywodraeth CCAUC bob blwyddyn, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwelliannau;
- b) goruchwylir gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n

adrodd yn rheolaidd i'r Cyngor ar ddarganfyddion a chasgliadau gwaith archwilio; ac

- c) mae'r rheolwyr yn darparu datganiad o sicrwydd ynghylch y systemau a'r gweithdrefnau sy'n gweithredu yn eu maes cyfrifoldeb.

7 Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wedi nodi nifer o feysydd lle mae angen cryfhau rheolaeth yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiad. Ym mhob achos, cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwr perthnasol i fynd i'r afael â'r gwendidau. Yn ogystal, nododd prosesau'r Cyngor ei hun un enghraifft lle y bu cost contract yn fwy na'r disgwyl a lle y dylid fod wedi cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cymeradwyaeth ôl-weithredol bellach. Mae ein gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto.

Yr Athro Philip Gummert  
Prif Weithredwr a  
Swyddog Cyfrifo

11 Gorffennaf 2007

# Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf i mi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2007 o dan Baragraff 16(3) o Atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad Costau Gweithredu, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a ddisgrifiwyd yn yr Adroddiad fel wedi archwilio.

## Prif gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yn cynnwys yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth, a'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w archwilio yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (i'r DU ac Iwerddon).

Nodaf fy marn ar ba un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno. Nodaf fy marn ar ba un a yw peth o'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Cyflwyniad, Cefndir, Sylwadaeth Rheolwyr, a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth nad yw wedi'i

harchwilio, yn gyson â'r datganiad ariannol. Nodaf hefyd p'un a yw'r gwariant a'r incwm wedi eu cymhwysu at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ymhob ystyr berthnasol, ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, nodaf pa un ai yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir ai peidio, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad neu os na chaiff gwybodaeth a nodwyd gan awdurdodau perthnasol o ran cydnabyddiaeth a thrafodion eraill eu datgelu.

Adolygaf a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol ar dudalennau 50 a 51 yn adlewyrchu cydymffurfiaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru â chanllawiau'r Trysorlys, a nodaf os na fydd yn adlewyrchu hyn. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried a yw'r Datganiadau'r hyn yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, nac i lunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru na'i weithdrefnau risgiau a rheoli.

Rwyf hefyd yn darllen yr holl wybodaeth arall a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwyf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

## Sail y farn archwilio

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae fy archwiliad yn cynnwys ystyried, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau,

datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan y Cyngor a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifyddu yn fwyaf priodol i amgylchiadau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn angenrheidiol yn fy marn i i roi digon o dystiolaeth i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad a bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhob ystyr berthnasol a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynwyd gwybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio.

## Barn

### Barn Archwilio

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi barn gywir a theg, yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru, o gyflwr materion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar 31 Mawrth 2007 a'i gostau gweithredu net a llif arian am y flwyddyn a

ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan y Ddeddf honno; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Cyflwyniad, Cefndir, Sylwadaeth Rheolwyr, a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth nad yw wedi'i harchwilio, yn gyson â'r datganiad ariannol.

### Barn Archwilio ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ymhob ystyr berthnasol mae'r gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Jeremy Colman  
Archwilydd Cyffredino  
Cymru  
23 Gorffennaf 2007

Swyddfa Archwilio Cymru  
2-4 Park Grove  
Caerdydd  
CF10 3PA

# Datganiad Cost Weithredol

## am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2007

	Nodyn	2007		2006 ailddatganwyd	
		£'000	£'000	£'000	£'000
<b>GWARIANT</b>					
<i>Cyllido Addysg Uwch:</i>					
Gwariant rheolaidd	4	403,703		358,310	
Gwariant cyfalaf	4	11,564		15,026	
Dibenion eraill	6	30,440		32,301	
		<b>445,707</b>		<b>405,637</b>	
<i>Gwariant y Cyngor:</i>					
Costau gweinyddu	7	795		841	
Costau staff	8	2,006		1,847	
Dibrisiant	11	113		109	
Amorteiddiad	12	9		10	
Taliadau tybiannol - cost cyfalaf	9	331		267	
		<b>3,254</b>		<b>3,074</b>	
<b>CYFANSWM GWARIANT</b>			<b>448,961</b>		<b>408,711</b>
<b>Incwm o weithgareddau</b>	<b>3</b>		<b>19,752</b>		<b>20,682</b>
<b>Costau gweithredol net cyn</b>			<b>(429,209)</b>		<b>(388,029)</b>
<b>llog ac adfeddiannau</b>					
Llog y gellir ei dderbyn	10		356		299
Adfeddiannau	10		(356)		(299)
<b>Costau gweithredol net am y flwyddyn wedi'u trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol</b>			<b>(429,209)</b>		<b>(388,029)</b>
<b>Symudiad ar y gronfa gyffredinol</b>					
Gweddill a ddygwyd ymlaen			7,150		8,134
Costau gweithredol net am y flwyddyn			(429,209)		(388,029)
Cymorth grant LICC			433,496		386,778
Cost dybiannol addasiad cyfalaf			331		267
Gweddill a gariwyd ymlaen			<b>11,768</b>		<b>7,150</b>
Mae'r holl weithgareddau'n parhau.					
Nid oes unrhyw enillion a cholledion cydnabyddedig yn 2006-07 nac yn 2005-06					
Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 67 yn rhan o'r cyfrifon hyn.					

# Mantolen ar 31 Mawrth 2007

Nodiadau	2007		2006 ailldatganwyd	
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>ASEDAU SEFYDLOG</b>				
Asedau sefydlog cyffyrddadwy	11	117		187
Asedau sefydlog anghyffyrddadwy	12	10		19
		127		206
<b>ASEDAU CYFREDOL</b>				
Dyledwyr	13	6,036	2,100	
Arian yn y banc ac mewn llaw	22	6,230	6,616	
		12,266	8,716	
<b>CREDYDWYR</b>				
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(625)	(1,772)	
Asedau cyfredol net		11,641		6,944
<b>ASEDAU NET</b>		11,768		7,150
<b>ARIANNWYD GAN :</b>				
<b>CYFALAF A CHRONFEYDD</b>				
Cronfa gyffredinol	15	11,768		7,150
<b>CYFANSWM CYLLID Y LLYWODRAETH</b>	15	11,768		7,150

Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 67 yn rhan o'r cyrifon hyn.

Llofnodwyd ar ran y Cyngor



Yr Athro Philip Gummert  
Prif Weithredwr a  
Swyddog Cyfrifo  
11 Gorffennaf 2007

# Datganiad Llif Arian am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Mawrth 2007

Nodiadau	2007 £'000	2006 ailddatganwyd £'000
<b>Gweithgareddau gweithredol</b>		
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredol	21	(434,170)
<b>Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid</b>		
Llog a dderbyniwyd	346	306
Llog a ildwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru	(346)	(306)
<b>Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol</b>		
Taliadau i brynu asedau sefydlog cyffyrddadwy	(43)	(226)
Taliadau i brynu asedau sefydlog anghyffyrddadwy	-	(29)
<b>All-lif arian net cyn ariannu</b>		
	(434,213)	(384,089)
<b>Ariannu</b>		
Cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	433,496	386,778
Cost dybiannol addasiad cyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru	331	267
Gostyngiad)/cynnydd mewn arian	22	(386)
<b>Mae'r nodiadau ar dudalennau 57 i 67 yn rhan o'r cyfrifon hyn.</b>		
	2,956	

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Polisiâu cyfrifo

### (a) Sail y cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymreig, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd gan baragraff 16(2), atodlen 1 i Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Paratowyd y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol addasedig ac yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 1985, Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a'r Safonau Cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau y mae'r gofynion hyn yn briodol. Caiff asedau sefydlog eu prisio ar sail cost hanesyddol ar ôl tynnu dibrisiant ac nid ydynt wedi cael eu hailbrisio gan na fyddai'r fath addasiad yn bwysig ym marn y Cyngor.

### (b) Grantiau ar gyfer prosiectau Undeb Ewropeaidd (UE)

#### *Incwm:*

Bydd y Cyngor yn derbyn incwm grant yn ymwneud â phrosiectau UE o ddwy ffynhonnell. Mae incwm grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael ei gredu i'r gronfa gyffredinol yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant. Caiff incwm yr UE i gynnal prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop ei gredu i'r datganiad cost weithredol yn y flwyddyn y telir am y gwariant.

#### *Gwariant:*

Fel y sawl sy'n gwneud cais am brosiectau Ewropeaidd ac yn contractio gyda thrydydd partïon i'w gweithredu, mae atebolrwydd y Cyngor yn codi pan dderbynnir cais dilys gan dderbynnwyd y grant.

### (c) Cyllid

Derbynnir cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido gweithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Ystyrir mai ariannu yw'r swm hwn o gymorth grant, ac fe'i credydir i'r gronfa gyffredinol pan dderbynnir ef.

### (d) Grantiau sy'n daladwy

Caiff grantiau sy'n daladwy eu cofnodi fel gwariant yn y cyfnod y mae derbynnydd y grant yn ymgymryd â'r gweithgaredd sy'n creu hawl. Caiff grantiau rheolaidd, sef, yn bennaf, y cyllid rheolaidd a chyfalaf a ddyrennir i Sefydliadau Addysg Uwch, eu dwyn i gyfrif pan delir hwy. Ym marn y Cyngor, mae'r drefn hon yn cyflawni i bob pwrpas gyfatebiaeth rhwng cyllid grant a ddygir i gyfrif a'r patrwm o weithgarwch ariannol yn y Sefydliadau Addysg Uwch.

### (e) Costau ar y cyd

Hyd 31 Mawrth 2006, cynlluniwyd strwythur y Cyngor Addysg Uwch a'r Cyngor Cenedlaethol - ELWa i gymryd i ystyriaeth bolisiâu a chyfrifoldebau statudol unigol y ddau Gyngor, tra'n cydnabod bod uned weithredol ar y cyd yn cynnig ateb cost-ffeithiol i ddarparu gwasanaethau proffesiynol.

Pryd bynnag yr oedd modd, cafodd costau'r Adrannau â chyd-gyfrifoldebau eu dyrannu'n uniongyrchol i ddatganiadau ariannol y Cyngor perthnasol. Fodd bynnag, roedd costau ar y cyd na ellid yn rhesymol eu dyrannu'n uniongyrchol i'r ddau Gyngor ac, yn dilyn adolygiad mewnol blynyddol, penderfynwyd rhannu'r costau hyn ar sail y gwaith a wneid ar ran y ddau Gyngor. Ar 1 Ebrill 2006, unodd y Cyngor Cenedlaethol â Llywodraeth Cynulliad Cymru.



**(f) Taliadau tybiannol**

*Cost Cyfalaf:*

Yn unol ag arweiniad Gweinidogion Cymreig, mae tâl cyfalaf tybiannol sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd wedi cael ei gynnwys yn y costau gweithredol, wedi'i gyfrifo yn ôl 3.5% (2005-06 - 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

**(g) Costau pensiwn**

Mae staff blaenorol a phresennol yn dod o fewn darpariaethau trefniadau'r Pensiwn Gwasanaeth Sifil (PGS). Mae'r Cyngor yn cydnabod y gost ddisgwyliedig o ddarparu pensiynau ar sail systematig a rhesymegol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau ei staff drwy dalu i'r trefniadau PGS symiau a gyfrifir ar sail groniodol. Mae atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn godiant ar y trefniadau PGS.

**(h) Asedau sefydlog cyffyrddadwy**

Mae cyfarpar sy'n costio mwy na £500 ac unrhyw osodion, ffitiadau neu gyfarpar sy'n costio mwy na £1,000 yn cael eu cyfalafu. Darperir dibrisiant ar yr holl asedau sefydlog cyffyrddadwy ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob ased ar sail linell syth yn ystod ei oes fuddiol ddisgwyliedig, fel y dangosir isod. Codir blwyddyn lawn o ddibrisiant ym mlwyddyn y caffael.

Cyfarpar TG	3 blynedd
Cyfarpar trydanol	5 mlynedd
Gosodion a ffitiadau	5 mlynedd

Caiff unrhyw newidiadau i'r swyddfa, gan gynnwys i osodion a ffitiadau, eu hamorteiddio dros y cyfnod sy'n weddill o'r brydles, o'r dyddiad prynu.

**(i) Asedau sefydlog anghyffyrddadwy**

Caiff trwyddedau meddalwedd sy'n costio mwy na £500 eu cyfalafu.

Darperir amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog anghyffyrddadwy ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost pob ased ar sail linell syth yn ystod ei oes fuddiol ddisgwyliedig, fel y dangosir isod. Codir blwyddyn lawn o amorteiddiad ym mlwyddyn y caffael.

Trwyddedau meddalwedd                      3 blynedd

**(j) Treth Ar Werth**

Gan nad yw'r Cyngor wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, mae'r holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW briodoladwy.

**(k) Prydlesau Gweithredol**

Mae rhentolion prydles gweithredol yn cael eu cynnwys yn y datganiad cost weithredol yn y flwyddyn y maent yn gysylltiedig â hi.

## 2. Newid mewn polisi cyfrifo

Mae *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ar gyfer 2006-07 wedi cyflwyno newid, sy'n weithredol o 2006-07, yn y ffordd y dylid cyfrif am grantiau refeniw a chymorth grant ynghyd â grantiau cyfalaf cyffredinol. O dan y newidiadau hyn, mae gofyn i daliadau o barti rheoli gael eu hystyried yn gyllid a'u credu i'r gronfa gyffredinol yn hytrach nag fel incwm gweithredol am y flwyddyn, neu fel symudiad ar gronfa grant y llywodraeth. Bydd y newid hwn hefyd yn effeithio ar y modd y cyflwynir y cyllid hwn yn y datganiad llif arian. At y dibenion hyn, ystyrir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti rheoli.

Felly gwnaed addasiadau blwyddyn flaenorol i ffigurau cymharol 2005-06 fel a ganlyn (gweler nodyn 15 hefyd):

- Credydu cymorth grant o £386,778,000 a'r gost dybiannol addasiad cyfalaf gysylltiedig o £241,000 i'r gronfa gyffredinol yn hytrach nag i'r datganiad cost weithredol (gyda newidiadau cyfatebol i'r datganiad llif arian)
- Trosglwyddo £70,000 o weddill agoriadol cronfa grant y llywodraeth i weddill agoriadol y gronfa gyffredinol yn 2005-06.

Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar y lefel gyffredinol o ecwiti trethdalwyr fel y'i cynrychiolir gan gyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

Yn ogystal, er mwyn adlewyrchu'n well aiddosbarthu'r cyllid hwn fel ariannu, nid oes angen cynnwys y canlyniadau gweithredol net bellach mewn datganiad o gyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig. O ganlyniad, nid oes angen cynnwys datganiad o enillion a cholledion cydnabyddedig eleni.

### 3. Incwm o weithgareddau

Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariau mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)  
 Undeb Ewropeaidd – Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
 Swyddfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Cronfa Is-strwythur Ymchwil Wyddonol

	2007 £'000	2006 £'000
	5,278	5,109
	1,992	1,894
	12,482	13,679
	<b>19,752</b>	<b>20,682</b>

(a) Derbynnir y cyllid hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w ddsbarthu yn y sector AU. Prif bwrpas y cyllid yw darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi.

## 4. Cyllido addysg uwch

	Rheolaidd	2007 Cyfalaf	Cyfanswm	2006 Cyfanswm wedi'i ailddatgan
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Sefydliadau Addysg Uwch</b>				
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	37,551	980	38,531	34,901
Prifysgol Cymru, Bangor	37,174	944	38,118	34,417
Prifysgol Caerdydd	114,283	2,845	117,128	111,308
Prifysgol Cymru Abertawe	43,210	1,102	44,312	40,464
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	7,100	225	7,325	6,818
Athrofa Gogledd-Ddwyrain Cymru	16,830	545	17,375	15,529
Prifysgol Cymru, Casnewydd	20,928	682	21,610	19,987
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	29,960	947	30,907	27,491
Athrofa Addysg Uwch Abertawe	17,234	539	17,773	16,326
Coleg y Drindod Caerfyrddin	6,828	243	7,071	6,161
Prifysgol Morgannwg (gweler (a) isod)	51,949	1,642	53,591	44,646
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (gweler (a) isod)	4,856	140	4,996	5,593
Cofrestrfa Prifysgol Cymru	1,420	-	1,420	1,286
Y Brifysgol Agored (gweler (b) isod)	7,258	430	7,688	4,182
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>396,581</b>	<b>11,264</b>	<b>407,845</b>	<b>369,109</b>
<b>Sefydliadau Addysg Bellach</b>				
Coleg Pen-y-bont	67	-	67	24
Coleg Sir Gâr	1,170	-	1,170	1,014
Coleg Llandrillo	1,332	-	1,332	1,076
Coleg Menai	53	-	53	22
Coleg Castell-nedd Port Talbot	115	-	115	110
Coleg Morgannwg	412	-	412	423
Coleg Abertawe	37	-	37	67
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>3,186</b>	<b>-</b>	<b>3,186</b>	<b>2,736</b>
<b>Cyrff Eraill</b>				
Arad Consulting Ltd	40	-	40	-
Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol	1,000	-	1,000	-
EKOS Consulting	24	-	24	-
Yr Uned Her Cydraddoldeb	30	-	30	-
Evidence Ltd	21	-	21	-
Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil a Gwybodaeth Addysg Uwch	-	-	-	37
Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon	-	-	-	21
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (CCAULI)	2,937	300	3,237	2,641
HERO Ltd	28	-	28	25
Yr Academi Addysg Uwch	885	-	885	596
Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth	49	-	49	29
Integrated Web Systems Ltd	20	-	20	-
London Economics	27	-	27	-
CCCAH/NCETW	-	-	-	24
OPM	-	-	-	104
PMMS Limited	-	-	-	184
Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd	77	-	77	68
SQW Ltd	21	-	21	-
UKERNA	146	-	146	36
Prifysgolion y DU	56	-	56	81
Swyddfa Archwilio Cymru – ffioedd archwilio, prosiectau wedi'u cyllido gan yr UE	14	-	14	26
York Consulting Ltd	27	-	27	-
Eraill	451	-	451	374
<b>Is-gyfanswm</b>	<b>5,853</b>	<b>300</b>	<b>6,153</b>	<b>4,246</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>405,620</b>	<b>11,564</b>	<b>417,184</b>	<b>376,091</b>
Tynner gwariant wedi'i gyllido gan CGE (gw. nodyn 6)	(1,917)	-	(1,917)	(2,755)
<b>Cyfanswm</b>	<b>403,703</b>	<b>11,564</b>	<b>415,267</b>	<b>373,336</b>

(a) Ar 1 Ionawr 2007, daeth Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn is-gwmni y mae Prifysgol Morgannwg yn llwyr berchen arno. O ganlyniad, mae'r cyllid ar gyfer CBCDC a nodir uchod yn cyfeirio at y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2006 ac mae'r cyllid ar gyfer Prifysgol Morgannwg yn cynnwys cyllid ar gyfer CBCDC o 1 Ionawr 2007.

(b) Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros gyllido'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ynghyd â'r holl gyllid cysylltiedig, o CCAULI i CCAUC ym mis Awst 2005.

## 5. Grantiau i sefydliadau

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys grantiau i sefydliadau, sy'n cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol y derbynwyr er mwyn dangos i'r grantiau gael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd. Mae blwyddyn ariannol sefydliadau addysg uwch yn gorffen ar 31 Gorffennaf ac mae'r Cyngor yn disgwyl derbyn cyfrifon wedi'u harchwilio erbyn 31 Rhagfyr. Mae adolygiad gan staff y Cyngor o ddatganiadau ariannol 2005/06 y sefydliadau wedi dangos bod yr archwilwyr allanol yn ystyried i'r grantiau gael eu defnyddio

at y dibenion a fwriadwyd ac nad oedd angen unrhyw addasiadau i'r grantiau. Yn ogystal, nid arweiniodd yr archwiliad o nifer y myfyrwyr a wnaed yn yr haf 2006 at unrhyw addasiadau o bwys. Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o archwilio cyfrifon y sefydliadau a nifer y myfyrwyr yn 2006/2007 yn cael eu gwneud gan y Cyngor yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau i grantiau a dderbyniodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gael eu defnyddio at y pwrpasau a gymeradwywyd.

## 6. Gwariant at ddibenion eraill

Cronfeydd wrth gefn ariannol a bwrsariau mynediad i fyfyrwyr aeddfed (a)  
Cronfa Gymdeithasol Ewrop  
Cronfa Is-strwythur Ymchwil Wyddonol

2007 £'000	2006 £'000
5,279	5,109
1,917	2,755
23,244	24,437
<b>30,440</b>	<b>32,301</b>

(a) Mae'r gwariant hwn yn ymwneud ag arian a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru at bwrpas darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr mewn achosion o galedi.

(b) Cynhelir archwiliadau ar wahân o'r symiau'n ymwneud â'r taliadau grant a wneir o dan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE). Bydd unrhyw addasiadau sy'n codi o'r archwiliadau hyn yn cael eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

## 7. Costau gweinyddu

Costau adeiladau  
Costau swyddfa  
Gwasanaethau a brynwyd i mewn  
Tâl archwilwyr - Ffi archwilio flynyddol CCAUC  
Tâl archwilwyr - Gwaith adroddiad sicrhau ychwanegol  
Costau teithio a chynhaliadau aelodau'r Cyngor  
Costau cyfarfodydd aelodau'r Cyngor  
Costau teithio a chynhaliadau staff  
Gwariant yn gysylltiedig â staff ar hyfforddiant ac ati  
Costau technoleg gwybodaeth

2007 £'000	2006 £'000
347	262
90	78
47	208
16	16
4	3
9	13
22	18
44	48
105	102
111	93
<b>795</b>	<b>841</b>

Nid yw'r costau gweinyddu yn cynnwys £22k a roddwyd o dan gostau rheolaidd rhaglenni (2006 - £32k).

## 8. Costau staff

### (a) Dadansoddiad

Cyflogau  
 Costau nawdd cymdeithasol  
 Costau pensiwn eraill  
 Cyfanswm costau rhestr gyflogau  
 Tynnu costau a roddwyd o dan gostau rheolaidd rhaglenni  
 Costau rhestr gyflogau gweinyddol

Staff	2007			2006		
	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm	Staff	Aelodau'r Cyngor (gan gynnwys Prif Weithredwr)	Cyfanswm	
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
1,788	160	1,948	1,626	156	1,782	
140	14	154	113	14	127	
328	25	353	280	24	304	
2,256	199	2,455	2,019	194	2,213	
(449)	-	(449)	(366)	-	(366)	
<b>1,807</b>	<b>199</b>	<b>2,006</b>	<b>1,653</b>	<b>194</b>	<b>1,847</b>	

### (b) Pensiynau

Cynllun buddion diffiniedig aml-gyflogwr heb ei gyllido yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ond ni all CCAUC ddweud beth yw ei gyfran o'r asedau a dyledion gwaelodol. Prisiodd actwari'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2003. Gellir gweld y manylion yng nghyfrifon adnodd Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil [www.civilservice-pensions.gov.uk](http://www.civilservice-pensions.gov.uk)

Yn 2006-07, roedd cyfraniadau cyflogwr o £353,045 yn daladwy i PGPFS (2005-06 £303,613) ar un o'r pedair cyfradd yn yr

amrediad 17.1 i 25.5 y cant o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog (roedd y cyfraddau yn 2005-06 rhwng 16.2 y cant a 24.6 y cant). Caiff cyfraniadau'r cyflogwr eu hadolygu gan actwari'r cynllun bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. O 2007-08, caiff y bandiau cyflog eu hadolygu ond bydd y cyfraddau yn aros yr un fath. Gosodir y cyfraddau cyfrannu i gwrdd â chost buddion sy'n cronni yn ystod 2006-07 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a dalwyd i bensiynwyr presennol yn ystod y cyfnod hwn.

### (c) Nifer cyfartalog o staff a gyflogwyd

Ar gyfartaledd, cyflogodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru 57 o staff cyfwerth ag amser-llawn yn ystod y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2007, fel a ganlyn:

Uwch Reolwyr  
 Timau Polisi  
 Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Staff â chytundeb cyflogaeth parhaol yn y DU  
 Staff eraill – dros dro  
 Staff eraill – ar secondiad

2007 Nifer	2006 Nifer
2	2
30	32
25	23
<b>57</b>	<b>57</b>
54	51
1	3
2	3
<b>57</b>	<b>57</b>

## 9. Taliadau tybiannol

Cost cyfalaf - 3.5 % (2006 - 3.5%) o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd

2007 £'000	2006 ailddatganwyd £'000
331	267

## 10. Adfeddiannau

Derbyniadau y gellir eu hildio i Lywodraeth Cynulliad Cymru:

Llog banc

2007 £'000	2006 £'000
356	299

## 11. Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Cost

Ar 1 Ebrill 2006

Ychwanegiadau

Ar 31 Mawrth 2007

Dibrisiant

Ar 1 Ebrill 2006

Codwyd yn ystod y flwyddyn

Ar 31 Mawrth 2007

Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2007

Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2006

Cyfarpar TG £'000	Gosodion a Ffitiadau £'000	Cyfarpar Trydanol £'000	Cyfanswm £'000
264	31	43	338
36	-	7	43
300	31	50	381
125	12	14	151
91	13	9	113
216	25	23	264
84	6	27	117
139	19	29	187

## 12. Asedau sefydlog anghyffyrddadwy

Cost

Ar 1 Ebrill 2006

Ychwanegiadau

Ar 31 Mawrth 2007

Amorteiddiad

Ar 1 Ebrill 2006

Codwyd yn ystod y flwyddyn

Ar 31 Mawrth 2007

Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2007

Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2006

Trwyddedau meddalwedd  
£'000

29
-
29
10
9
19
10
19

### 13. Dyledwyr

	2007 £'000	2006 ailddatganwyd £'000
Dyledwyr masnach	-	9
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	4,801	1,617
Gweddillion gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog	1,235	474
	<b>6,036</b>	<b>2,100</b>

### 14. Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn

	2007 £'000	2006 £'000
Credydwyr masnach	107	-
Croniadau	518	1,352
Gweddillion gyda chyff eraill y llywodraeth ganolog	-	420
	<b>625</b>	<b>1,772</b>

### 15. Effeithiau addasiadau blwyddyn flaenorol ar gronfeydd cyffredinol

#### a) Cronfa gyffredinol

	2006 ailddatganwyd £'000
Ar 1 Ebrill 2005	
Fel y'i datganwyd yn wreiddiol	8,064
Trosglwyddiad o gronfa grant y llywodraeth (nodyn 15(b))	70
Fel y'i hailddatganwyd ar 1 Ebrill 2005	8,134
Costau gweithredol net am y flwyddyn	(388,857)
Cymorth grant LICC	386,778
Cost dybiannol addasiad cyfalaf LICC	241
Gwariant rheolaidd ar raglenni a ragdalwyd	854
Fel y'i hailddatganwyd ar 31 Mawrth 2006	<b>7,150</b>

#### b) Cronfa grant y llywodraeth

Ar 1 Ebrill 2005	
Fel y'i datganwyd yn wreiddiol	70
Trosglwyddiad i'r gronfa gyffredinol (nodyn 15(a))	(70)
Fel y'i hailddatganwyd ar 1 Ebrill 2005	-

Mae'r addasiad blwyddyn flaenorol mewn perthynas â gwariant rheolaidd ar raglenni o dan y gronfa gyffredinol uchod yn ymwneud â chywiro'r ffaith i ragdaliad gael ei adael allan ar 31 Mawrth 2006. Mae'r holl addasiadau blwyddyn flaenorol eraill y manylir arnynt uchod yn deillio o'r newid mewn polisi cyfrifo y cyfeirir ato yn nodyn 2 i'r cyfrifon hyn.



## 16. Rhwymedigaethau prydles

	2007 £'000	2006 £'000
Symiau a gynhwyswyd yn y datganiad cost weithredol am rentolion prydles gweithredol mewn perthynas ag adeiladau	157	108
Ymrwymiad blynyddol ar brydlesau'n dod i ben o fewn:		
Un flwyddyn	68	-
Dwy i bum mlynedd	-	154
Dros bum mlynedd	91	-

## 17. Ymrwymïadau cyfalaf

	2007 £'000	2006 £'000
Contractiwyd	4	-

## 18. Ymrwymïadau ariannol

	2007 £'000	2006 £'000
Grantiau referniw (a)	157,553	147,885
Prosiectau Ewropeaidd (b)	23	3,430
	<b>157,576</b>	<b>151,315</b>

(a) Caiff y swm hwn ei gyllido drwy gymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

(b) Caiff prosiectau Ewropeaidd eu cyllido fel a ganlyn:

	2007 £'000	2006 £'000
Grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop	23	2,584
Cymorth grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru	-	846
	<b>23</b>	<b>3,430</b>

Mae gan y prosiectau Ewropeaidd ymrwymïadau ariannol o £38k hefyd a gaiff eu cyllido gan gyfraniadau cyllid cyfatebol allanol gan sefydliadau Addysg Uwch a mentrau bach a chanolig.

## 19. Colledion a thaliadau arbennig

	2007	2006
Taliadau ofer	708	2,425

## 20. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Ystyrir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, mae CCAUC wedi cael amryw o drafodion o bwys â Llywodraeth Cynulliad Cymru yr ystyrir ei bod yn rhiant Adran.

Mae'r aelodau canlynol o'r Cyngor a'r uwch reolwyr canlynol wedi ymgymryd â chysylltiadau neu drafodion sy'n cael eu hystyried yn bartïon cysylltiedig, a ddangosir yn y tabl isod:

Enw	Cysylltiad
Dr Len Arthur (aelod o'r Cyngor)	Uwch Ddarlithydd, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.
Mr RPV (Tim) Rees (aelod o'r Cyngor)	Mab yng Nghyfraith, Comisiwn Ewropeaidd, Ymgynghoriad Fframwaith 7. Aelod a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod o Gorff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru.
Yr Athro Syr Brian Smith (aelod o'r Cyngor)	Llysgennad rhyngwladol, Prifysgol Caerdydd.
Mrs Tina Stephens (aelod o'r Cyngor)	Aelod o Fwrdd Ymgynghorol yr Ysgol Busnes a Datblygu Rhanbarthol yn PC Bangor.
Yr Athro D Garel Rhys, OBE (aelod o'r Cyngor)	Cadeirydd, Panel Cyngori ar Ymchwil Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
	Athro Emeritws, Prifysgol Caerdydd.
	Aelod o Grŵp Ymgynghorol y Gweinidogion (Yr Adran Menter, Arloesedd a Rhwydweithiau).
	Cymrawd Anrhydeddus, Athrofa Addysg Uwch Abertawe.
Yr Athro Nigel Stott, CBE (aelod o'r Cyngor)	Merch yng nghyfraith, Darlithydd ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd.
Mr Kenneth Richards (aelod o'r Cyngor)	Athro Emeritws, Coleg Meddygaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd.
	Trysorydd, Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru.
Yr Athro Mari Lloyd-Williams (aelod o'r Cyngor)	Aelod, Pwyllgor Buddsoddiadau Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
Yr Athro Philip Gummatt (Prif Weithredwr)	Mab, myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.
Mr Richard Hirst (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)	Gwraig, tiwtor rhan-amser yn Athrofa Addysg Uwch Abertawe.
	Cyfarwyddwr Cyfleoedd Addysg Uwch ac Ymchwil (HERO) Cyfyngedig.

Manylir ar y cyllid a ddyrennir i'r sefydliadau a'r cyrff uchod yn nodyn 4; fel arall, ni thalwyd unrhyw arian yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r un o'r staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion o bwys â

## 21. Cysoni'r costau gweithredol net am y flwyddyn â'r all-lif arian net o weithgareddau gweithredol

	2007 £'000	2006 ailddatganwyd £'000
Costau gweithredol net	(429,209)	(388,029)
Taliadau amorteiddiad	9	10
Taliadau dibrisiant	113	109
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	(3,926)	4,276
Gostyngiad mewn credydwyr	(1,157)	(200)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol	<b>(434,170)</b>	<b>(383,834)</b>

## 22. Cysoni llifoedd arian net â symudiadau mewn cyllid net

	2007 £'000	2006 £'000
Gostyngiad)/cynnydd mewn arian	(386)	2,956
Cyllid net ar 1 Ebrill	6,616	3,660
Cyllid net ar 31 Mawrth	<b>6,230</b>	<b>6,616</b>
Dadansoddiad o gyllid net:		
Arian yn y banc ac mewn llaw	<b>6,230</b>	<b>6,616</b>

## 23. Deilliadau ac offerynnau ariannol eraill

Nid oes gan y Cyngor unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar Lywodraeth Cynulliad Cymru am ei ofynion arian parod ac felly nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo chwaith unrhyw adneumon o bwys ac mae pob ased a dyled o bwys mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog neu arian cyfred.

## 24. Digwyddiadau ôl-fantolen

Rhoddodd y Swyddog Cyfrifo awdurdod i gyhoeddi'r datganiadau ariannol hyn ar 24 Gorffennaf 2007.